# Y Gronfa Ffyniant Bro – Canllawiau ar Geisiadau Cylch 2

## Cyflwyniad

Cyn llenwi'r ffurflen gais ar-lein, dylai ymgeiswyr ddarllen Prosbectws Cylch 2 y Gronfa Ffyniant Bro, y Nodyn Technegol a Chanllawiau ar Ffurflenni Cais.

Nodwch y dylai lefel y manylder a ddarparwch ar y ffurflen gais ar-lein fod yn gymesur â maint y cyllid rydych yn gofyn amdano. Er enghraifft, dylai cynigion ar gyfer mwy na £10m ddarparu mwy o wybodaeth yn gymesur na chynigion ar gyfer llai na £10m.

Er bod rhai atodiadau y gofynnwn i ymgeiswyr eu cwblhau (drwy'r dogfennau pro forma a ddarparwyd) a rhai dogfennau ychwanegol y gofynnwn amdanynt fel tystiolaeth, mae'n rhaid i ymgeiswyr gynnwys cyfeiriadau ar gyfer gwybodaeth a gynhwysir mewn atodiad os ydynt yn dymuno iddi gael ei hystyried yn yr asesiad. Rhaid i unrhyw ateb sy'n cyfeirio at unrhyw wybodaeth a gynhwysir mewn atodiadau fod yn berthnasol i gwestiwn penodol ar y ffurflen gais, a rhaid cyfeirio ato o fewn yr ateb.

Mae'r porth ymgeisio yn agor ar ddydd Mawrth 31 Mai 2022 a bydd yn cau am **12:00 canol dydd, ddydd Mercher 6 Gorffennaf 2022**. Gwnewch yn siŵr bod y cais ar-lein yn gyflawn a bod yr holl ddogfennau ategol wedi'u lanlwytho erbyn y terfyn amser hwn.

## Rhan 1 - Porth

Gofynnir cyfres o gwestiynau i ymgeiswyr i sicrhau eu bod wedi bodloni'r holl ofynion cymhwystra ar gyfer y math o gynnig. Caiff cyfle i adolygu a diwygio ymatebion ei ddarparu [cyn bod y cynnig yn cael ei gyflwyno] fodd bynnag, ni fydd y cais yn gallu mynd yn ei flaen hyd nes bod yr holl wiriadau cymhwystra wedi'u bodloni.

Yn ychwanegol at y gofynion cymhwystra, mae'n ofynnol i'r holl gynigion fodloni Meini Prawf cyhoeddedig y Porth. Mae'r rhain yn cynnwys maen prawf ychwanegol i ymgeiswyr o sefydliadau nad ydynt yn y sector cyhoeddus sy'n cyflawni prosiectau yng Ngogledd Iwerddon. Gofynnir y rhain i gyd ar ddechrau'r broses ymgeisio ar-lein, a bydd cwestiynau'n dibynnu ar y math o gynnig sy'n cael ei gyflwyno:

| **Gwiriadau lwfans yn Lloegr, yr Alban a Chymru yn unig.** | |
|---|---|
| Cadarnhewch pa lwfans cynigion rydych yn ei ddefnyddio: | Mae hwn i benderfynu pa lwfans cynigion y mae'r awdurdod lleol yn ei ddefnyddio. Am fanylion pellach ar |

| | |
|---|---|
| - Lwfans yn seiliedig ar etholaeth lawn<br>- Lwfans trafnidiaeth | lwfansau cynigion Trafnidiaeth neu gynigion yn seiliedig ar Etholaeth, gweler y Nodyn Technegol. |
| **Ar gyfer cynigion sy'n defnyddio'r lwfans trafnidiaeth**, a yw eich cynnig yn fuddsoddiad 90% o leiaf yn y thema trafnidiaeth gyda'r ganran sy'n weddill wedi'i buddsoddi mewn gweithgarwch yn gysylltiedig â thrafnidiaeth? | Mae'n ofyniad bod cynigion sy'n defnyddio'r lwfans trafnidiaeth yn fuddsoddiad 90% o leiaf mewn trafnidiaeth.<br><br>Os Na, nid yw'r cynnig yn gymwys. |
| **Gynigion gan ymgeisydd sengl, ac eithrio cynigion trafnidiaeth mawr a chynigion diwylliant mawr** | |
| Cadarnhewch nad yw'r cynnig yn fwy nag £20M | Ni all cynigion sengl fod yn fwy nag 20M oni bai eu bod yn bodloni'r meini prawf ar gyfer cynnig trafnidiaeth mawr neu gynnig diwylliant mawr.<br><br>Os Na, ac nad yw'r cynnig yn bodloni'r meini prawf ar gyfer cynnig trafnidiaeth mawr neu gynnig diwylliant mawr, yna nid yw'n gymwys. |
| **Cynigion Pecyn** | |
| A oes gennych fwy na thri o brosiectau cydrannol? | Mae'n ofyniad nad yw cynigion pecyn yn cynnwys mwy na thri o brosiectau cydrannol.<br><br>Os Oes, nid yw'r cynnig yn gymwys. |
| **Cynigion ar y Cyd** | |
| **Ar gyfer cynnig ar y cyd yn Lloegr, yr Alban, a/neu Gymru**, cadarnhewch enwau'r awdurdodau lleol eraill rydych chi'n gweithio ar y cyd â nhw, a chadarnhewch pa lwfans cynnig y maent yn ei ddefnyddio i gefnogi'r cynnig hwn. | Y rheswm y gofynnwn am enwau'r awdurdodau lleol cyfranogol eraill yw sicrhau bod y llythyrau cefnogaeth yn cyfateb i'r enw(au) a ddarparwyd.<br><br>Y rheswm y gofynnwn pa lwfansau cynnig sy'n cael eu defnyddio yw sicrhau bod gan yr holl awdurdodau lleol cyfranogol lwfans digonol i ymgeisio |
| **Ar gyfer cynnig ar y cyd yng Ngogledd Iwerddon**, cadarnhewch enwau cofrestredig y sefydliadau eraill rydych chi'n gweithio ar y cyd â nhw.<br><br>Cadarnhewch a yw unrhyw un o'ch partneriaid o'r sector nad yw'n rhan o'r sector cyhoeddus. | Mae'n ofyniad eich bod yn darparu enwau'r holl sefydliadau ymgeisiol yr ydych chi'n gweithio ar y cyd â nhw. Sicrhewch fod yr enwau cofrestredig cyfreithlon yn cael eu darparu.<br><br>Nodwch ei bod yn ofynnol i'r holl ymgeiswyr a phartneriaid nad ydynt yn rhan o'r sector cyhoeddus mewn |

| | |
|---|---|
| | cynigion ar y cyd i fodloni meini prawf Porth Gogledd Iwerddon ar gyfer cynigion nad ydynt yn rhai sector cyhoeddus. |
| **Yr holl gynigion ar y cyd**. Cadarnhewch fod gennych gefnogaeth sefydliadau eraill yr ydych yn gweithio â nhw a bod gennych pro forma wedi'i lofnodi i'r perwyl hwn gan bob sefydliad.<br><br>**Ar gyfer cynigion yn Lloegr, yr Alban a/neu Gymru**, llenwch pro forma 2.<br><br>**Ar gyfer cynigion yng Ngogledd Iwerddon**, llenwch pro forma 3. | Rhaid i gynigion ar y cyd gael cefnogaeth yr holl sefydliadau cyfranogol. Byddwn yn gwirio bod tystiolaeth o gefnogaeth wedi'i ddarparu gan yr holl bartïon.<br><br>Ar gyfer cynigion yn **Lloegr, yr Alban, a/neu Gymru**, llenwch pro forma 2.<br><br>Ar gyfer cynigion yng **Ngogledd Iwerddon**, llenwch pro forma 3.<br><br>Os Na, nid yw'r cynnig yn gymwys. |
| **Yr holl gynigion ar y cyd**. Cadarnhewch nad yw eich cynnig yn uwch na'r trothwy uchaf a ganiateir ar gyfer cynigion ar y cyd.<br><br>- Rwy'n cyflwyno cynnig ar y cyd gydag un sefydliad arall a gallaf gadarnhau nad yw'n uwch na £40M Ydy/Nac ydy<br><br>- Rwy'n cyflwyno cynnig ar y cyd gyda dau neu fwy o sefydliadau eraill a gallaf gadarnhau nad yw'n uwch na £60M Ydy/Nac ydy | Mae'n ofyniad nad yw cynigion ar y cyd yn uwch na'r trothwy uchaf a ganiateir.<br><br>Os Nac ydy, nid yw'r cynnig yn gymwys. |
| **Yr holl gynigion ar y cyd sydd hefyd yn gynigion pecyn**. Cadarnhewch nad yw unrhyw brosiect cydrannol yn eich pecyn yn fwy na £50M | Mae'n ofyniad nad yw unrhyw brosiect cydrannol mewn cynnig pecyn yn fwy na £50M |
| **Cynigion trafnidiaeth mawr (gan ymgeisydd sengl) >£20M** | |
| Cadarnhewch nad yw'r cynnig yn uwch na £50M<br><br>Ydy/Nac ydy | Mae'n ofyniad nad yw cynigion trafnidiaeth mawr yn uwch na £50M.<br><br>Os Nac ydy, nid yw'r cynnig yn gymwys. |
| Cadarnhewch fod o leiaf 90% o'r buddsoddiad yn y thema trafnidiaeth gyda'r ganran sy'n weddill wedi'i buddsoddi mewn gweithgarwch yn gysylltiedig â thrafnidiaeth? | Mae'n ofyniad bod cynigion trafnidiaeth mawr yn fuddsoddiad o 90% o leiaf mewn trafnidiaeth.<br><br>Os Na, nid yw'r cynnig yn gymwys. |

| **Cynigion diwylliannol mawr (gan ymgeisydd sengl) >£20M** | |
|---|---|
| Cadarnhewch nad yw'r cynnig yn uwch na £50M | Mae'n ofyniad nad yw cynigion diwylliant mawr yn uwch na £50M.<br><br>Os Nac ydy, nid yw'r cynnig yn gymwys. |
| Cadarnhewch fod o leiaf 90% o'r buddsoddiad yn y thema diwylliannol gyda'r ganran sy'n weddill wedi'i buddsoddi mewn gweithgarwch yn gysylltiedig â thrafnidiaeth? | Mae'n ofyniad bod cynigion diwylliant mawr yn fuddsoddiad o 90% o leiaf mewn diwylliant.<br><br>Os Na, nid yw'r cynnig yn gymwys. |
| **Unrhyw gynnig gydag elfen trafnidiaeth** | |
| **Ar gyfer cynigion yng Ngogledd Iwerddon gan Weithrediaeth Gogledd Iwerddon (NIE),** a yw cefnogaeth y cyngor (cynghorau) lleol perthnasol gennych?<br><br>Llenwch pro forma 4. | Rhaid i'r holl gynigion **gan Weithrediaeth Gogledd Iwerddon (NIE),** gydag elfen trafnidiaeth yng **Ngogledd Iwerddon** fod â chefnogaeth y cyngor (cynghorau) lleol perthnasol. Byddwn yn gwirio bod tystiolaeth o gefnogaeth wedi'i darparu.<br><br>Llenwch pro forma 4.<br><br>Os Na, nid yw'r cynnig yn gymwys. |
| **Ar gyfer cynigion yng Ngogledd Iwerddon gan sefydliad nad yw yn y sector cyhoeddus** (nid cyngor lleol, na Gweithrediaeth Gogledd Iwerddon (NIE), a yw cefnogaeth yr NIE a'r cyngor (cynghorau) lleol perthnasol gennych?<br><br>Llenwch pro forma 4. | Rhaid i'r holl gynigion **gan sefydliadau nad ydynt yn y sector cyhoeddus** gydag elfen trafnidiaeth yng **Ngogledd Iwerddon** fod â chefnogaeth y cynghorau lleol perthnasol a Gweithrediaeth Gogledd Iwerddon. Byddwn yn gwirio bod tystiolaeth o gefnogaeth wedi'i darparu.<br><br>Llenwch pro forma 4.<br><br>Os Na, nid yw'r cynnig yn gymwys |
| **Ar gyfer cynigion yn Lloegr, yr Alban, a/neu Gymru,** lle nad oes gennych chi (yr ymgeisydd) gyfrifoldeb statudol i gyflawni'r holl elfennau trafnidiaeth yn eich cynnig, cadarnhewch fod gennych gefnogaeth yr holl awdurdodau sydd â chyfrifoldeb statudol perthnasol cyn symud ymlaen. | Mae'n ofyniad bod gan gynigion trafnidiaeth mawr gefnogaeth yr awdurdodau statudol perthnasol ar gyfer trafnidiaeth. Nodwch fod hwn yn ofyniad hefyd ar gyfer yr holl gynigion sy'n defnyddio lwfans trafnidiaeth. |

| | |
|---|---|
| Nodwch fod hwn yn ofyniad hefyd ar gyfer yr holl gynigion sy'n defnyddio lwfans trafnidiaeth.<br><br>Llenwch pro forma 1. | Byddwn yn gwirio bod tystiolaeth o gefnogaeth wedi'i darparu. Llenwch pro forma 1.<br><br>Os Na, nid yw'r cynnig yn gymwys |
| | |
| **1.1** Meini Prawf Porth **ar gyfer yr holl gynigion.**<br>Ticiwch y blwch i gadarnhau y bydd rhywfaint o gyllid grant y Gronfa Ffyniant Bro yn cael ei dalu ym mlwyddyn ariannol 2022/23.<br><br>Gallai gwariant cymwys yn 2022-23 cynnwys costau datblygu cyfalaf. | Sicrhewch eich bod wedi cwblhau yn llawn y gweithlyfr Costau a Chynllunio.<br><br>Dylai cynigion sengl gwblhau'r Gweithlyfr Costau a Chynllunio (Cynigion Sengl).<br><br>Dylai cynigion pecyn gwblhau'r Gweithlyfr Costau a Chynllunio (Cynigion Pecyn).<br><br>Dylai'r tab proffil cyllido ddangos yn glir rhywfaint o grant y Gronfa Ffyniant Bro wedi'i dalu o fewn yr amserlen ofynnol.<br><br>Dylai fod yn amlwg bod grant y Gronfa Ffyniant Bro yn cael ei ddefnyddio at gostau prosiect sydd wedi'u talu ym mlwyddyn ariannol 2022/23.<br><br>Nodwch y gallai costau prosiect yn 2022-23 gynnwys costau datblygu cyfalaf.<br><br>Os na fodlonir y Meini Prawf Porth hyn, yna ni fydd y cynnig yn symud ymlaen i asesiad. |
| **1.2** Meini Prawf Porth ar gyfer cynigion sengl a chynigion ar y cyd lle mae'r ymgeisydd a/neu'r sefydliadau partner yn sefydliadau addysg uwch / prifysgol, sefydliadau sector preifat a thrydydd sector mewn **cynigion Gogledd Iwerddon yn unig**<br><br>Cadarnhewch eich bod wedi atodi datganiadau ariannol archwiliedig yn cwmpasu'r tair blynedd ariannol ddiwethaf (neu gyfrifon blynyddol archwiliedig ar gyfer elusennau cofrestredig) | Mae'r Meini Prawf Porth hyn yn berthnasol i gynigion sengl a chynigion ar y cyd lle mae'r ymgeisydd a/neu'r sefydliadau partner yn sefydliadau addysg uwch / prifysgol, sefydliadau sector preifat a thrydydd sector.<br><br>Rhaid darparu datganiadau ariannol archwiliedig yn cwmpasu'r tair blynedd ariannol ddiwethaf (neu gyfrifon blynyddol archwiliedig ar gyfer elusennau cofrestredig) ar gyfer yr holl ymgeiswyr nad ydynt yn rhan o'r sector cyhoeddus a sefydliadau partner nad |

| | |
|---|---|
| Ar gyfer yr ymgeisydd (os yw'n berthnasol) Ydyn/Nac ydyn<br><br>Ar gyfer sefydliad(au) partner (os yw'n berthnasol) Ydyn/Nac ydyn | ydynt o'r sector cyhoeddus mewn cynigion ar y cyd.<br><br>Os nad yw'r datganiadau ariannol/ cyfrifon blynyddol archwiliedig yn cael eu darparu, bydd y cynnig yn methu'r Maen Prawf Porth hwn ac ni fydd yn symud ymlaen i asesiad. |
| **1.2.1** Meini Prawf Porth ar gyfer cynigion sengl a chynigion ar y cyd lle mae'r ymgeisydd a/neu'r sefydliadau partner yn sefydliadau addysg uwch / prifysgol, sefydliadau sector preifat a thrydydd sector mewn **cynigion Gogledd Iwerddon yn unig**<br><br>Darparwch dystiolaeth yn dangos bod gan eich sefydliad (fel yr ymgeisydd) a/neu eich sefydliadau partner (ar gyfer cynigion ar y cyd) brofiad o gyflawni dau brosiect cyfalaf o faint a graddfa debyg yn y pum mlynedd diwethaf.<br><br>Ar gyfer yr ymgeisydd (os yw'n berthnasol)<br><br>Ar gyfer y sefydliad(au) partner (os yw'n berthnasol)<br><br>Dylid copïo tystiolaeth sefydliadau partner o pro forma 3. | Mae'r Meini Prawf Porth hyn yn berthnasol i gynigion sengl a chynigion ar y cyd lle mae'r ymgeisydd a/neu'r sefydliadau partner yn sefydliadau addysg uwch / prifysgol, sefydliadau sector preifat a thrydydd sector.<br><br>Rhaid i'r holl ymgeiswyr nad ydynt yn rhan o'r sector cyhoeddus a sefydliadau partner nad ydynt o'r sector cyhoeddus mewn cynigion ar y cyd ddarparu manylion i ddangos eu bod wedi cyflawni dau brosiect cyfalaf o faint a graddfa debyg yn llwyddiannus yn y pum mlynedd diwethaf.<br><br>Gallai tystiolaeth ategol gynnwys astudiaethau achos a deunyddiau hyrwyddo. Dylai'r holl ymgeiswyr / sefydliadau partner nad ydynt yn rhan o'r sector cyhoeddus ddangos eu profiad o gaffael, rheoli risg a chyflawni'n amserol.<br><br>Os na fodlonir y Meini Prawf Porth hyn yna ni fydd y cynnig yn symud ymlaen i asesiad. |

**Manylion yr Ymgeisydd**

| | |
|---|---|
| **Enw cyfreithiol y sefydliad ymgeisiol arweiniol:**<br><br>**Rheolwr y Cynnig**<br>***Swyddog â chyfrifoldeb o ddydd i ddydd am gyflawni'r cynllun arfaethedig a chyswllt enwebedig ar gyfer y cynnig.*** | Cadarnhewch enw cyfreithiol yr ymgeisydd arweiniol a llenwch y manylion cysylltu fel y gofynnir.<br><br>Dim ond ar gyfer rheolwr y cynnig y mae angen cyfeiriad post. |

| | |
|---|---|
| Enw:<br>Swydd:<br>Rhif ffôn cyswllt:<br>Cyfeiriad e-bost:<br>Cyfeiriad post:<br><br>**Manylion cyswllt yr Uwch Swyddog Cyfrifol:**<br>Enw:<br>Swydd:<br>Rhif ffôn cyswllt:<br>Cyfeiriad e-bost:<br><br>**Manylion Cyswllt y Prif Swyddog Ariannol:**<br>Enw:<br>Swydd:<br>Rhif ffôn cyswllt:<br>Cyfeiriad e-bost: | |
| Darparwch enw unrhyw gwmnïau ymgynghori a fu'n gysylltiedig â pharatoi'r cynnig: | Darparwch enw unrhyw gwmnïau ymgynghori a fu'n gysylltiedig â pharatoi'r cynnig: |
| Ble mae eich cynnig yn cael ei gyflawni? Lloegr, yr Alban, Cymru neu Ogledd Iwerddon | Cadarnhewch ble mae'r cynnig yn cael ei gyflawni trwy dicio'r blwch. |
| **Ar gyfer Gogledd Iwerddon yn unig**, cadarnhewch y math o ymgeisydd arweiniol;<br><br>Gweithrediaeth Gogledd Iwerddon<br>Trydydd Sector<br>Corff y Sector Cyhoeddus<br>Sector Preifat<br>Cyngor Lleol<br>Addysg Uwch/Prifysgol<br>Arall (nodwch) | Cadarnhewch eich math o sefydliad.<br><br>Rhaid pennu rhai eraill. |
| **Ar gyfer Gogledd Iwerddon yn unig**, Os o'r trydydd sector, sector preifat, addysg uwch/prifysgol neu arall, darparwch rif cofrestru'r elusen a/neu gwmni.<br><br>Rhif elusen:<br><br>Rhif cwmni: | Os o'r trydydd sector, sector preifat, addysg uwch/prifysgol neu arall, darparwch rif cofrestru'r elusen a/neu gwmni.<br><br>Byddwn yn gwirio'ch cyfrifon/ datganiadau ariannol yn erbyn y rhif |

| | |
|---|---|
| | hwn o gadarnhau bod y gwaith papur cywir gennym. |
| **Ar gyfer yr holl gynigion** Os yw TAW yn berthnasol i'ch sefydliad, darparwch y rhif TAW: | Darparwch y rhif TAW os yw'n berthnasol. |

## Rhan 2 - Dadansoddiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb, dadansoddiad o reolaeth ar gymorthdaliadau a chymorth Gwladwriaethol

Os defnyddir y Gronfa Ffyniant Bro i ddarparu cymhorthdal, rhaid i wariant gydymffurfio â rhwymedigaethau'r DU ar reoli cymorthdaliadau. Rhaid i'r holl gynigion y gellid eu hystyried yn gymhorthdal ystyried sut byddant yn cyflawni yn unol â rheolaeth ar gymorthdaliadau (neu Gymorth gwladwriaethol ar gyfer cymorth o fewn y cwmpas ar gyfer **Gogledd Iwerddon yn unig**) yn unol â chanllawiau Llywodraeth y DU.

Rhaid i'r holl ymgeiswyr ddangos a allai dyfarnu cyllid y Gronfa Ffyniant Bro yn uniongyrchol fod yn gyfystyr â chymhorthdal. Mae'n hanfodol bod yr holl ymgeiswyr yn cwblhau'r adran hon o'r ffurflen gais. **Lle nad yw ymgeiswyr yn dangos yn ddigonol fod y dyfarniad o'r Gronfa Ffyniant Bro yn cydymffurfio o dan Gyfundrefn Rheoli Cymorthdaliadau'r DU neu reolau Cymorth gwladwriaethol, yna dylid ystyried bod y prosiect yn anghymwys a gellir gwrthod y cais.**

<table>
<tr><td colspan="2">2.1. Rhaid i holl ymgeiswyr ddangos a allai dyfarnu cyllid y Gronfa Ffyniant Bro gan Lywodraeth y DU yn uniongyrchol i chi (fel yr ymgeisydd) fod yn gyfystyr â chymhorthdal.<br><br>Rhaid i ymgeiswyr ystyried p'un a yw unrhyw rai o'r gweithgareddau cynlluniedig yn bodloni pob un o'r pedair nodwedd allweddol sy'n dynodi y byddai'n cael ei ystyried yn gymhorthdal.<br><br>Os yw unrhyw un o'r pedwar ymateb yn 'Na' yna nid yw'r dyfarniad yn cael ei ystyried yn gymhorthdal.</td></tr>
<tr><td>2.1.1 A yw'r cymorth yn cael ei ddarparu gan 'awdurdod cyhoeddus' ac a yw'r cymorth yn gyfystyr â chyfraniad ariannol (neu mewn nwyddau) fel grant, benthyciad neu warant?</td><td>Ymateb Ydy/Nac Ydy yn ofynnol.</td></tr>
<tr><td>2.1.2 A yw'r mesur cymorth yn rhoi mantais economaidd ar un neu fwy o gyfranogwyr economaidd?</td><td>Ydy/Nac Ydy ac ymateb teipiedig yn ofynnol.</td></tr>
<tr><td>2.1.3 A yw'r mesur cymorth yn benodol i'r graddau ei fod yn fuddiol, fel mater o gyfraith neu fater o ffaith, i rai cyfranogwyr economaidd dros rai eraill mewn perthynas â chynhyrchu rhai nwyddau neu wasanaethau?</td><td>Ydy/Nac ydy ac ymateb teipiedig yn ofynnol.<br><br>Cadarnhewch a fydd y dyfarniad yn creu budd neu beidio ac yn darparu manylion yn amlinellu pam hynny.</td></tr>
</table>

| | |
|---|---|
| **2.1.4** A yw'r potensial gan y mesur cymorth i achosi ystumio neu niwed i gystadleuaeth, masnach neu fuddsoddiad? | Cadarnhewch a yw'r potensial gan y dyfarniad i achosi niwed neu ystumio i gystadleuaeth, masnach neu fuddsoddiad, gan ddarparu manylion yn amlinellu pan hynny. |
| **2.1.5** A wnaethoch chi ymateb 'Ydy' i bob un o'r uchod? Os do, mae'r gweithgareddau cynlluniedig yn bodloni pob un o'r pedair nodwedd allweddol sy'n dynodi y byddai'n cael ei ystyried yn gymhorthdal. | Os mai'r ymateb i'r cwestiwn hwn yw **DO** ewch i gwestiwn 2.2.<br><br>Os **NADDO**:<br>• Os Naddo, ymgeiswyr nad ydynt yn rhan o'r sector cyhoeddus yn unig, ewch i gwestiwn 2.3<br>• Os Naddo, ymgeiswyr awdurdod lleol ewch i gwestiwn 2.4 |
| 2.2 Dangoswch sut mae dyfarniad arian y Gronfa Ffyniant Bro yn uniongyrchol gan Lywodraeth y DU i chi (fel yr ymgeisydd) wedi'i ystyried o dan bob un o'r chwe egwyddor cymorthdaliadau.<br><br>Bydd hyn yn golygu ystyried sut gellir darparu'r cymhorthdal yn unol â'r egwyddorion Rheoli Cymorthdaliadau canlynol sydd wedi'u rhestru yn Erthygl 36 Cytundeb Masnach a Chydweithredu'r UE-DU:<br><br>Os yw gweithgareddau arfaethedig y Gronfa Ffyniant Bro yn cynrychioli cymhorthdal ac y bodlonwyd yr holl egwyddorion, ystyrir bod y cais i'r Gronfa Ffyniant Bro yn cydymffurfio.<br><br>Gwahanwch eich ymatebion lle ceir amryfal ddyfarniadau cymhorthdal. | |
| 2.2.1 Dylai cymorthdaliadau ddilyn amcan polisi cyhoeddus penodol i unioni methiant a nodwyd yn y farchnad neu i fynd i'r afael â rhesymeg ecwiti fel anawsterau cymdeithasol neu bryderon dosbarthiadol ("yr amcan")<br><br>Dangoswch sut mae eich cynnig y n bodloni'r egwyddor hon. | Mae angen i ymgeiswyr ddarparu manylion ynglŷn â sut gellir darparu'r cymhorthdal yn unol â'r egwyddorion Rheoli Cymorthdaliadau sydd wedi'u rhestru yn Erthygl 36 Cytundeb Masnach a Chydweithredu'r UE-DU.<br><br>Gwahanwch eich ymateb lle ceir amryfal ddyfarniadau cymhorthdal. |
| 2.2.2 Dylai cymorthdaliadau fod yn gymesur ac yn gyfyngedig i'r hyn sy'n angenrheidiol i gyflawni'r amcan<br><br>Dangoswch sut mae eich cynnig y n bodloni'r egwyddor hon. | Dylai ymgeiswyr ddarparu manylion ynghylch p'un a yw'r cymhorthdal i'w ddarparu yn gymesur ac yn gyfyngedig i'r gweithgarwch ac amcanion y mae'n ceisio eu cyflawni. |
| 2.2.3 Dylai cymorthdaliadau fod wedi eu cynllunio i achosi newid yn ymddygiad economaidd y buddiolwr sy'n ffafriol i gyflawni'r amcan ac na fyddai'n cael ei gyflawni pe na bai cymorthdaliadau'n cael eu darparu. | Dylai ymgeiswyr nodi holl fuddiolwyr y cymhorthdal sy'n gyfranwyr economaidd.<br><br>Darparwch fanylion ynglŷn â sut bydd darparu'r cymhorthdal i'r buddiolwyr yn |

| | |
|---|---|
| Dangoswch sut mae eich cynnig y n bodloni'r egwyddor hon. | arwain at newid i ymddygiad economaidd presennol bob un o'r buddiolwyr. |
| 2.2.4 Ni ddylai cymorthdaliadau fel arfer wneud iawn am y costau y byddai'r buddiolwr wedi eu cyllido yn absenoldeb unrhyw gymhorthdal.<br><br>Dangoswch sut mae eich cynnig y n bodloni'r egwyddor hon. | Cadarnhewch sut yr ystyriwch fod unrhyw gymhorthdal yn ychwanegol at yr hyn y byddai'r buddiolwr yn ymgymryd ag ef fel arall e.e. mae'r cymhorthdal ar gyfer gweithgarwch nad yw'n digwydd yn barod neu mae tu allan i weithgareddau busnes arferol. |
| 2.2.5 Dylai cymorthdaliadau fod yn offeryn polisi priodol i gyflawni amcan polisi cyhoeddus ac ni ellir cyflawni'r amcan hwnnw drwy ddulliau eraill llai ystumiol.<br><br>Dangoswch sut mae eich cynnig y n bodloni'r egwyddor hon. | Dangoswch sut bydd y cymhorthdal yn offeryn polisi priodol i gyflawni amcan polisi cyhoeddus ac na ellir cyflawni'r amcan hwnnw drwy ddulliau eraill llai ystumiol. |
| 2.2.6 Dylai cyfraniadau cadarnhaol cymorthdaliadau at gyflawni'r amcan orbwyso unrhyw effeithiau negyddol, yn enwedig yr effeithiau negyddol ar fasnach neu fuddsoddi rhwng y Partïon.<br><br>Dangoswch sut mae eich cynnig yn bodloni'r egwyddor hon. | Dylai ymgeiswyr amlinellu y dylai cyfraniadau cadarnhaol cymorthdaliadau at gyflawni'r amcan orbwyso unrhyw effeithiau negyddol, yn enwedig yr effeithiau negyddol ar fasnach neu fuddsoddi rhwng y Partïon. |
| 2.3 **Yr holl ymgeiswyr nad ydynt yn rhan o'r sector cyhoeddus sy'n cyflawni yng Ngogledd Iwerddon.** Os yw'r dyfarniad cyllid yn cael ei ystyried yn gymhorthdal, amlinellwch yn fanwl sut byddwch yn cyflawni'r cyllid yn gydymffurfiol o dan y gyfundrefn cymorthdaliadau.<br><br>Os ydych yn bwriadu dyrannu rhywfaint o'r cyllid grant i drydydd partïon, fel partneriaid prosiect sy'n gweithio gyda chi i gyflawni'r prosiect, (e.e. trefniant is-grant) nodwch sut byddwch chi'n sicrhau yr alldelir y grant yn unol â chyfundrefn rheoli cymorthdaliadau'r DU.<br><br>Bydd angen i'r adran asesu sut bydd cyllid yn cael ei ddyfarnu a sut y rheolir risg. | Os penderfynir mai cymhorthdal yw'r dyfarniad cyllid, bydd angen i ymgeiswyr nad ydynt yn rhan o'r sector cyhoeddus o Ogledd Iwerddon ddarparu manylion i egluro sut bydd cyllid yn cael ei ddarparu'n gydymffurfiol o dan y gyfundrefn cymorthdaliadau. Dylai hwn amlinellu hefyd sut bydd cyllid yn cael ei ddyfarnu a sut y rheolir risgiau.<br><br>Os yw rhywfaint o'r grant i'w ddyrannu i drydydd parti (e.e. partner prosiect) amlinellwch hefyd ar sut ffurf fydd hyn (e.e. is-grant) a sut bydd cyllid yn cael ei alldalu yn unol â chyfundrefn rheoli cymorthdaliadau'r DU. |
| 2.3.1 **Yr holl ymgeiswyr nad ydynt yn rhan o'r sector cyhoeddus sy'n cyflawni yng Ngogledd Iwerddon.** | Disgwylir i ymgeiswyr Gogledd Iwerddon nad ydynt yn y sector cyhoeddus i gael |

| | |
|---|---|
| Cadarnhewch eich bod wedi derbyn a lanlwytho cyngor cyfreithiol annibynnol sy'n gyson â'ch ymateb yn yr adran hon a'i fod yn cadarnhau yr ystyrir bod y dyfarniad cyllid yn cydymffurfio â chyfundrefn rheoli cymorthdaliadau'r DU. Ydyn/Nac Ydyn | cyngor cyfreithiol annibynnol mewn perthynas â rheoli Cymorthdaliadau.<br><br>Lle mae Cymorth gwladwriaethol yn berthnasol, dylai'r holl ymgeiswyr nad ydynt yn rhan o'r sector cyhoeddus gael cyngor cyfreithiol annibynnol. O dan y gyfraith gyhoeddus, mae'n rhaid i bob awdurdod lleol yn y DU ddyfarnu arian cyhoeddus yn gydymffurfiol. Y rheswm y gofynnwn am hyn gan gyrff nad ydynt yn gyrff cyhoeddus yw rhoi sicrwydd i'r adran fod y cyflawni'n cydymffurfio o dan rwymedigaethau Cymorth gwladwriaethol.<br><br>**Mae hwn yn ofyniad, ac os na chaiff ei fodloni, ni fydd y cais yn pasio i asesiad.** |
| 2.4 **Awdurdodau cyhoeddus yn unig.** Cadarnhewch os byddwch chi'n alldalu'r cyllid fel cymhorthdal posibl i drydydd parti. | Os **YDYN** ewch i gwestiwn 2.5<br><br>Os **NAC YDYN**, gorffen. |
| 2.5 **Awdurdodau cyhoeddus yn unig.** Cadarnhewch eich bod wedi cwblhau pro forma 5: datganiad o gydymffurfio wedi'i lofnodi gan eich Prif Swyddog Cyllid.<br><br>Ydyn/Nac Ydyn | Lle mae ymgeiswyr o awdurdodau cyhoeddus wedi cadarnhau y bydd y Gronfa Ffyniant Bro yn cael ei halldalu fel cymhorthdal posibl i drydydd parti (e.e. partner cyflawni) disgwylir iddynt ddarparu datganiad o gydymffurfio gan eu Prif Swyddog Ariannol wrth gwblhau pro forma 5.<br><br>**Mae hwn yn ofyniad, ac os na chaiff ei fodloni, ni fydd y cais yn pasio i asesiad.** |
| 2.6. **Ymgeiswyr y sector cyhoeddus a'r sector preifat ar gyfer cyflawni yng Ngogledd Iwerddon yn unig.** A yw'r dyfarniad cyllid yn uniongyrchol gan Lywodraeth y DU i chi (fel yr ymgeisydd) yn cael ei ystyried yn Gymorth gwladwriaethol o dan bedwar prawf rheolau Cymorth gwladwriaethol y DU? | |
| 2.6.1 A yw'r cymorth yn cael ei roi gan y wladwriaeth neu drwy adnoddau gwladwriaeth? | Ymateb Ydy/Nac Ydy yn ofynnol. |
| 2.6.2 A yw'r cymorth yn rhoi mantais ddewisol i ymgymeriad? | Cadarnhewch a fydd y dyfarniad yn rhoi mantais ddewisol a rhowch fanylion yn amlinellu pam hynny. |
| 2.6.3 A yw'r cymorth yn ystumio neu â'r potensial i ystumio cystadleuaeth? | Cadarnhewch a fydd y dyfarniad yn |

<table>
<tr><td colspan="3"></td><td colspan="3">ystumio neu â’r potensial i ystumio cystadleuaeth a rhowch fanylion yn amlinellu pam hynny.</td></tr>
<tr><td colspan="3">2.6.4 A yw'r cymorth yn effeithio ar fasnach rhwng aelod-wladwriaethau’r UE?</td><td colspan="3">Cadarnhewch a fydd y dyfarniad yn effeithio ar fasnach rhwng aelod-wladwriaethau’r UE a rhowch fanylion yn amlinellu pam hynny.</td></tr>
<tr><td colspan="3">2.6.5 A yw’r gweithgareddau cynlluniedig yn bodloni pob un o bedwar prawf allweddol Cymorth gwladwriaethol?<br><br>Os bodlonir pob un o’r pedwar prawf yna mae’r dyfarniad yn gyfystyr â Chymorth gwladwriaethol a rhaid iddo gydymffurfio â chyfraith cymorth Gwladwriaethol.</td><td colspan="3">Os YDYN ewch i gwestiwn 2.7<br><br>Os NAC YDYN, gorffen.</td></tr>
<tr><td colspan="3">2.7 Ar gyfer ymgeiswyr y sector preifat, beth yw maint y fenter sy’n gwneud cais am gyllid?<br><br>Cyfeiriwch at y diffiniad swyddogol o BBaCh.</td><td colspan="3">Dylai ymgeiswyr gyfeirio at y ddogfen diffiniadau BBaCh cyn cadarnhau’r ymateb i’r cwestiwn hwn. Yr opsiynau ar gyfer meintiau mentrau yw:<br>• Micro<br>• Bach<br>• Canolig<br>• Mawr<br>Bydd diffiniad yn dibynnu ar nifer o ffactorau, gan gynnwys niferoedd staff, trosiant blynyddol a math o fenter.</td></tr>
<tr><td colspan="3">2.8 Rhestrwch yr holl sefydliadau (os ydych yn gwybod) a allai elwa o gyllid y prosiect ac unrhyw fudd economaidd y gallai ei gael o ganlyniad i’r cyllid.</td><td colspan="3">Rhestrwch yr holl sefydliadau a allai elwa o’r cyllid ac amlinellwch pa fudd economaidd y byddant yn ei gael.<br><br>Endid yw buddiolwr sy’n deillio mantais o rywbeth, yn yr achos hwn, cyllid y Gronfa Ffyniant Bro.</td></tr>
<tr><td colspan="6">2.9 Rhaid i ymgeiswyr ystyried p’un a yw’r dyfarniad yn bodloni’r holl brofion ar gyfer pob buddiolwr.<br><br>Os ystyrir bod buddiolwyr yn derbyn Cymorth gwladwriaethol, yna mae’n rhaid i chi ystyried sut mae hyn yn cydymffurfio o dan reolau Cymorth gwladwriaethol.<br><br>Gall ymgeiswyr fod eisiau cyfeirio at ganllawiau “Notion of State aid” y Comisiwn Ewropeaidd.</td></tr>
<tr><td>Enw’r buddiolwr</td><td>A yw’r cymorth yn cael ei roi gan y wladwriaeth neu drwy</td><td>A yw’r cymorth yn rhoi mantais ddewisol i ymgymeriad?</td><td>A yw’r cymorth yn ystumio neu â’r potensial i ystumio cystadleuaeth?</td><td>A yw'r cymorth yn effeithio ar fasnach rhwng</td><td>A yw’r dyfarniad yn cael ei ystyried yn Gymorth</td></tr>
</table>

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | adnoddau gwladwriaeth? | | | aelod-wladwriaeth-au? | gwlad-wriaethol? |
| | | | | | Ydy/Nac ydy |
| | | | | | Ydy/Nac ydy |
| | | | | | Ydy/Nac ydy |
| | | | | | Ydy/Nac ydy |
| | | | | | |

2.9.1 Lle mae prosiect yn cael ei ariannu o dan esemptiad yn seiliedig ar y Rheoliadau Esemptiad Bloc Cyffredinol (651/2014), mae'n ofynnol i'r Ymgeisydd naill ai

a) gadarnhau bod y prosiect yn dod o fewn cwmpas Rheoliad 6(5) neu
b) cyflwyno dogfen ar wahân i ddangos effaith gymhellol yn unol â Rheoliad 6(2) yn cynnwys y wybodaeth ganlynol:
   I. enw a maint ymgymeriad yr ymgeisydd
   II. disgrifiad byr o'r prosiect, gan gynnwys dyddiadau dechrau a gorffen
   III. lleoliad y prosiect
   IV. rhestr lawn o gostau'r prosiect a ddefnyddiwyd i bennu'r lefel cyllid a ganiateir
   V. ffurf y cymorth
   VI. maint yr arian cyhoeddus sydd ei angen ar gyfer y prosiect.

| | |
|---|---|
| 2.9.2 A ydych chi'n cadarnhau bod y prosiect o fewn cwmpas Rheoliad 6(5) o dan y Rheoliadau Esemptiad Bloc Cyffredinol (651/2014) | Ymateb Ydyn/Nac Ydyn yn ofynnol. |
| 2.9.3 Os nac ydyn, cadarnhewch eich bod wedi atodi dogfen sy'n cynnwys y wybodaeth ofynnol. | Os ystyrir bod y dyfarniad cyllid uniongyrchol gan Lywodraeth y DU yn Gymorth gwladwriaethol o dan bedwar prawf rheolau Cymorth gwladwriaethol ac mae'n cael ei ariannu o dan esemptiad yn seiliedig ar y Rheoliadau Esemptiad Bloc Cyffredinol (651/2014), ac nid yw'n dod o fewn cwmpas Rheoliad 6(5), bydd yn ofynnol i chi atodi dogfen i ddangos effaith gymhellol yn unol â Rheoliad 6(2).<br><br>**Mae hwn yn ofyniad, ac os na chaiff ei fodloni, ni fydd y cais yn pasio i asesiad.** |
| 2.9.4 Os ydych yn bwriadu defnyddio esemptiad(au) o dan y Rheoliadau Esemptiad Bloc Cyffredinol (GBER) i gyflawni'r Prosiect, cadarnhewch eich bod wedi darllen telerau'r cynllun ac yn bodloni'r holl delerau perthnasol. | Ymateb Ydyn/Nac Ydyn yn ofynnol. |

| | |
|---|---|
| 2.9.5 Nodwch y ddarpariaeth GBER, teitl y cynllun a maint dyfarniad y Gronfa Ffyniant Bro i'w gyflawni o dan y ddarpariaeth.<br><br>Disgrifiwch sut ydych chi'n bodloni holl delerau perthnasol yr esemptiad. | Cadarnhewch ddarpariaeth yr Esemptiad Bloc Cyffredinol a theitl y cynllun rydych yn bwriadu cyflawni gweithgareddau'r prosiect o dano.<br><br>Mae pob GBER yn nodi gofynion a thelerau penodol ar gyfer eu defnyddio. Dylai ymgeiswyr ddarparu manylion yma sy'n dangos sut maent yn bodloni telerau penodol y ddarpariaeth GBER a ddewiswyd. |
| 2.10 Fel y sefydliad sy'n ymgeisio, a ydych chi'n ddarostyngedig i orchymyn adfer heb ei glirio mewn perthynas â Chymorth Gwladwriaethol? Os 'Ydyn', rhowch fanylion bras. | Ymateb Ydyn/Nac Ydyn yn ofynnol.<br><br>Os YDYN, mae angen i ymgeiswyr ddarparu manylion byr am y gorchymyn adfer heb ei glirio.<br><br>Os NAC YDYN ewch i'r cwestiwn nesaf |
| 2.11 Disgrifiwch y system sydd ar waith ar gyfer casglu a chofnodi'r wybodaeth ofynnol ar gyfer archwiliadau a ffurflenni Cymorth gwladwriaethol. | Mae pob GBER yn nodi gofynion a thelerau penodol ar gyfer eu defnyddio. Dylai ymgeiswyr amlinellu yma pa systemau y maent yn bwriadu eu rhoi ar waith i sicrhau bod yr holl ddata a thystiolaeth berthnasol yn cael ei chadw a fydd yn dangos bod y gofynion a'r telerau wedi'u bodloni.. |
| 2.12 **Yr holl ymgeiswyr nad ydynt yn rhan o'r sector cyhoeddus sy'n cyflawni yng Ngogledd Iwerddon.** Cadarnhewch eich bod wedi derbyn a lanlwytho cyngor cyfreithiol annibynnol sy'n gyson â'ch ymateb yn yr adran hon a'i fod yn cadarnhau yr ystyrir bod y dyfarniad cyllid yn cydymffurfio â Chymorth gwladwriaethol. | Lle mae Cymorth gwladwriaethol yn berthnasol, dylai'r holl ymgeiswyr nad ydynt yn rhan o'r sector cyhoeddus gael cyngor cyfreithiol annibynnol.<br>O dan y gyfraith gyhoeddus mae'n rhaid i bob awdurdod lleol yn y DU ddyfarnu arian cyhoeddus yn gydymffurfiol. Y rheswm y gofynnwn am hyn gan gyrff nad ydynt yn gyrff cyhoeddus yw rhoi sicrwydd i'r adran fod y cyflawni'n cydymffurfio o dan rwymedigaethau Cymorth gwladwriaethol.<br><br>**Mae hwn yn ofyniad, ac os na chaiff ei fodloni, ni fydd y cais yn pasio i asesiad.** |

## Rhan 3 - Crynodeb o gynigion

Yn yr adran hon, dylai ymgeiswyr ddarparu manylion craidd eu cynigion; gan egluro beth, ble, sut a faint. Os cynnig pecyn yw eich cynnig, dylech gwblhau Atodiadau A – C y Ffurflen Gais hefyd.

I nodi, mae cyfrifau geiriau wedi'u cynnwys ar gyfer nifer o gwestiynau trwy gydol y ffurflen gais, a darperir y rhain fel canllaw yn unig. Dylai lefel y manylder a ddarparwch fod yn gymesur â maint y cyllid rydych yn gofyn amdano.

| | |
|---|---|
| **3.1** Enw'r Cynnig: | Darparwch enw pennawd i'r prosiect. Dyrennir rhif cynnig y Gronfa Ffyniant Bro i'r holl gynigion pan gânt eu cyflwyno. Bydd y rhif cynnig hwn a'r enw a bennir yma yn cael eu defnyddio wedyn i gyfeirio at y cynnig ym mhob gohebiaeth yn y dyfodol. |
| **3.2** Darparwch ddisgrifiad byr o'ch cynnig, gan gynnwys y seilwaith gweledol a fydd yn cael ei gyflawni/uwchraddio a'r buddion a deimlir yn yr ardal.<br>(Uchafswm o 100 o eiriau) | Dylai disgrifiad byr gael ei ddarparu i grynhoi'r prosiect, ei ddeilliannau a'i fuddion. Gall hwn gael ei ddefnyddio mewn cyfathrebiadau felly dylai roi ciplun clir a chryno y gallai rhywun sy'n anghyfarwydd â'r cynnig ei ddeall. |
| **3.3** Darparwch drosolwg manylach o'r cynnig. Lle mae cynigion yn cynnwys amryfal gydrannau (cynigion pecyn) dylech esbonio'n glir sut mae'r prosiectau cydrannol yn gydnaws â'i gilydd ac yn creu set gydlynus o ymyriadau.<br><br>(500 o eiriau) | Dylai'r trosolwg hwn fod yn fanylach na hwnnw a ddarparwyd yn 3.2. Darparwch fanylion llawn am ba weithgarwch fydd yn digwydd yma, gan amlinellu'n glir beth yw'r ymyriadau, allbynnau a buddion cynlluniedig. Os yw'r gweithgareddau'n cael eu cynnal ar draws nifer o leoliadau, dylai'r ymgeisydd esbonio'n glir sut mae'r gweithgareddau'n gydnaws a'i gilydd ac yn creu set gydlynus o ymyriadau.<br><br>Os cynnig pecyn ydyw, dylai ymgeiswyr esbonio'n glir hefyd sut mae'r prosiectau cydrannol yn gydnaws â'i gilydd ac yn creu set gydlynus o ymyriadau. |
| **3.4** Darparwch ddisgrifiad byr o'r ardal lle bydd y buddsoddiad yn digwydd. Os yw'n un cymhleth (h.y. yn cynnwys amryfal leoliadau/cyfeiriadau) cynhwyswch fap sy'n diffinio'r ardal gyda chyfeiriadau at unrhyw ardaloedd lle bydd buddsoddiad y Gronfa Ffyniant Bro yn digwydd.<br><br>**Ar gyfer prosiectau trafnidiaeth** cynhwyswch lwybr y cynllun arfaethedig, y seilwaith trafnidiaeth presennol a phwyntiau eraill o ddiddordeb penodol i'r cynnig e.e. safleoedd datblygu, ardaloedd cyflogaeth presennol, cyfyngiadau ac ati. | Dylai'r ymateb roi disgrifiad bras o'r ardal, gan roi manylion pellach yng nghwestiwn 3.5 isod.<br><br>Os yw'n un cymhleth (h.y. yn cynnwys amryfal leoliadau/cyfeiriadau) cynhwyswch fap sy'n diffinio'r ardal gyda chyfeiriadau at unrhyw ardaloedd lle bydd buddsoddiad y Gronfa Ffyniant Bro yn digwydd. |

| | |
|---|---|
| (500 o eiriau) | |
| **3.5** Cadarnhewch ble mae'r buddsoddiad yn digwydd (ble mae'r cyllid yn cael ei wario, **nid** lleoliad yr ymgeisydd neu ble mae buddiolwyr y cynnig wedi'u lleoli).<br><br>Os yw'r cynnig mewn un lleoliad, cadarnhewch y cod post a'r cyfeirnod grid ar gyfer lleoliad y buddsoddiad.<br><br>Os yw'r cynnig yn cynnwys amryfal leoliadau, darparwch ffeil GIS. Os nad yw hon ar gael, rhestrwch yr holl godau post / cyfesurynnau sy'n berthnasol i'r buddsoddiad.<br><br>Ar gyfer yr holl gynigion, cadarnhewch ym mha etholaethau ac awdurdodau lleol y mae'r cynnig wedi'i leoli. Cadarnhewch % y buddsoddiad ym mhob lleoliad. | Mae angen i ni ddeall yn glir ble mae'r cyllid yn cael ei wario.<br><br>Bydd y wybodaeth hon yn cael ei defnyddio i bennu sgôr "Nodweddion Lle" a chaiff ei defnyddio at ddibenion adrodd.<br><br>Os yw'r cynnig mewn lleoliad unigol, cadarnhewch y cod post a'r cyfeirnod grid ar gyfer lleoliad y buddsoddiad.<br><br>Os yw'r cynnig yn cwmpasu amryfal leoliadau, darparwch ffeil GIS. Os nad yw hon ar gael, rhestrwch yr holl godau post / cyfesurynnau sy'n berthnasol i'r buddsoddiad.<br><br>Ar gyfer yr holl gynigion, cadarnhewch ym mha etholaethau ac awdurdodau lleol y mae'r cynnig wedi'i leoli. Cadarnhewch % y buddsoddiad ym mhob lleoliad. |
| **3.6** Cadarnhewch gyfanswm y grant y gofynnir amdano o'r Gronfa Ffyniant Bro (£) | Cyfanswm gwerth grant y Gronfa Ffyniant Bro (heb gynnwys arian cyfatebol) y gofynnwyd amdano o gylch 2 y Gronfa Ffyniant Bro ddylai hwn fod.<br><br>Dylai cyfanswm gwerth grant y Gronfa Ffyniant Bro fod yn gyson â hynny a gyflwynwyd yn y Gweithlyfr Costau a Chynllunio perthnasol – Tabl B – Proffil Ariannu. |
| **3.7** Pennwch gyfran y cyllid y gofynnwyd amdano ar gyfer pob un o dair thema fuddsoddi'r Gronfa:<br>a) Adfywio a chanol tref (%)<br>b) Diwylliannol (%)<br>c) Trafnidiaeth (%) | % grant y Gronfa Ffyniant Bro i'w wario ym mhob thema fuddsoddi ddylai hwn fod.<br><br>Gwnewch yn siŵr bod y cyfanswm yn gwneud 100%.<br><br>Wrth nodi canran thema/themâu o fewn cynnig, dylai ymgeiswyr ddiffinio hyn yn ôl costau sy'n gysylltiedig â gweithgarwch i gefnogi pob thema. Er enghraifft, pe bai 75% o gyfanswm gwerth cynnig yn cynnwys costau'n gysylltiedig â gweithgarwch i gefnogi allbwn neu ddeilliant adfywio, gyda |

| | |
|---|---|
| | 25% o gostau'n gysylltiedig â gweithgarwch i gefnogi allbwn neu ddeilliant diwylliannol, byddai'n cael ei ddiffinio fel cynnig adfywio 75% a diwylliant 25%. |
| **3.8** Ticiwch un neu fwy o is-gategorïau sy'n berthnasol i'ch buddsoddiad:<br><br>**Adfywio**<br>Masnachol<br>Dinesig<br>Preswyl<br><br>**Diwylliant**<br>Y Celfyddydau a Diwylliant<br>Diwydiannau Creadigol<br>Economi Ymwelwyr<br>Cyfleusterau chwaraeon ac athletau<br>Adeiladau a safleoedd treftadaeth<br><br>**Trafnidiaeth**<br>Teithio Llesol<br>Bysiau<br>Ffyrdd Strategol<br>Rheilffordd<br>Hedfan<br>Morol<br>Rheilffordd Ysgafn<br>Seilwaith Cerbydau Trydan<br>Ffyrdd Lleol | Ticiwch un neu fwy o is-gategorïau sy'n cyfateb orau i'ch cynnig. |
| **3.9** Dylai'r holl gynigion, gan gynnwys cynigion sengl ar gyfer prosiectau unigol egluro, lle bo modd, sut gellid eu lleihau pe bai llai o gyllid ar gael.<br><br>(500 o eiriau) | Dylai ymgeiswyr egluro, lle bo modd a chan gynnwys cynigion sengl ar gyfer prosiectau unigol, sut gellid lleihau gweithgareddau a chostau pe bai llai o gyllid ar gael. |
| **3.10** Rhowch fanylion unrhyw geisiadau a wnaed i gynlluniau ariannu eraill ar gyfer yr un cynnig hwn sy'n disgwyl canlyniad. Lle gallai canlyniad llwyddiannus olygu nad oes angen grant y Gronfa Ffyniant Bro arnoch mwyach, rhowch y manylion a chadarnhewch pa bryd y gallech ddisgwyl gwybod am y canlyniad.<br><br>(150 o eiriau) | Dylai ymgeiswyr restru unrhyw geisiadau eraill am gyllid a wnaethant ar gyfer y cynllun hwn neu amrywiadau iddo, a allai effeithio ar y gofyniad am gyllid y Gronfa Ffyniant Bro, pe bai'n llwyddiannus.<br><br>Os yw'n gymwys, dylid darparu fframiau amser disgwyliedig ar gyfer derbyn canlyniadau'r ceisiadau hyn. |

| | |
|---|---|
| | Dylai ymgeiswyr bennu hefyd swm y cyllid y gwneir cais amdano o gronfeydd eraill ac, os yn llwyddiannus, sut bydd hyn yn effeithio ar y grant o’r Gronfa Ffyniant Bro a geisir. |

## Rhan 4 Ffit Strategol

### 4.1 Cymeradwyaeth Aelod Seneddol (Lloegr, yr Alban a Chymru YN UNIG)

| | |
|---|---|
| 4.1.1 A oes AS wedi rhoi cymorth blaenoriaeth ffurfiol ar gyfer y cynnig hwn? Oes/Nac Oes<br><br>4.1.2 Cadarnhewch pa AS sydd wedi rhoi cymorth blaenoriaeth ffurfiol: (enw)<br><br>4.1.3 Pa etholaeth y mae’r AS hwn yn ei chynrychioli?<br><br>Cwblhewch **pro forma 6** hefyd. | Dylid cwblhau’r adran hon ar gyfer cynigion yn Lloegr, yr Alban a/neu Gymru, a dylid ond ei defnyddio i gofnodi cymorth blaenoriaeth ffurfiol AS. Dylid cofnodi cymorth cyffredinol AS, gan gynnwys MSP, MLA ac Aelodau o’r Senedd yng nghwestiwn 4.2.1 isod. |

### 4.2 Ymgysylltiad a Chymorth Rhanddeiliaid

Anogir ymgeiswyr i ymgysylltu ag ystod eang o randdeiliaid lleol a’r gymuned leol er mwyn llywio cynigion yn y cynnig ac i sicrhau cefnogaeth.

| | |
|---|---|
| **4.2.1** Disgrifiwch pa waith ymgysylltu rydych wedi’i wneud gyda rhanddeiliaid perthnasol lleol, gan gynnwys y gymuned (y cyhoedd, y gymdeithas ddinesig, y sector preifat a busnesau lleol). Sut mae hyn wedi llywio’ch cynnig a pha gymorth sydd gennych oddi wrthynt?<br><br>(500 o eiriau) | Rhoddir y cyfle i ymgeiswyr lanlwytho tystiolaeth o ymgysylltu â rhanddeiliaid adeg cyflwyno’r cais. Dylai hyn gynnwys, os yw’n berthnasol, MLAs yng Ngogledd Iwerddon, MSPs yn yr Alban ac Aelodau o’r Senedd yng Nghymru.<br><br>Dylai ymgeiswyr ddefnyddio’r rhan hon i sôn am ddulliau a strategaethau a ddefnyddiwyd (gan gynnwys dulliau rhithwir arloesol yn sgil COVID-19) i ymgysylltu â rhanddeiliaid, yn ogystal â nodi sut mae’r rhyngweithio hwn wedi dylanwadu ar y cynnig, a sut yr eir ati i ddatrys unrhyw agweddau dadleuol ar y cynnig.<br><br>Dylai ymgeiswyr fanylu ar sut y cafodd rhanddeiliaid eu nodi, a pha ymdrechion a wnaed i gyrraedd yr aelodau mwy ynysig hynny o’r gymdeithas, gan gynnwys cymunedau gwledig, na fyddent yn ymgysylltu fel arfer efallai. |

| | |
|---|---|
| | Gellir darparu tystiolaeth o ymgysylltiad rhanddeiliaid ar ffurfiau amrywiol, gan gynnwys llythyrau o gefnogaeth neu gofnodion cyfarfodydd.<br><br>Dylai ymgeiswyr egluro'r modd y mae'r gweithgareddau ymgysylltu wedi llywio datblygiad a dyluniad y cynnig. Dylid esbonio ystod yr adborth ymgysylltu'n glir a dangos tystiolaeth ohono, gan gynnwys cyfeirio at unrhyw ymgynghoriadau cyfredol/parhaus, fforymau cymunedol, ac ati.<br><br>Lle mae llwyddiant y cynnig yn dibynnu ar gydweithrediad a chefnogaeth rhanddeiliaid neu'r gymuned leol, dylai'r cais esbonio a dangos tystiolaeth o hyn yn glir.<br><br>Er nad oes rhestr wedi'i rhagddiffinio, gallai rhanddeiliaid a phartneriaid lleol perthnasol posibl gynnwys:<br><br>- Busnesau lleol<br>- Partneriaethau Mentrau Lleol<br>- Darparwyr trafnidiaeth gyhoeddus<br>- Yr heddlu a'r gwasanaethau brys<br>- Cynrychiolwyr / grwpiau cymunedol<br>- Cyrff y Llywodraeth / sefydliadau e.e. Hanesyddol<br>- Lloegr, y Cyngor Celfyddydau<br>- Cynrychiolwyr amgylcheddol<br>- Cynrychiolwyr iechyd y cyhoedd<br>- Prifysgolion, a cholegau addysg bellach<br>- Cynulleidfaoedd, ymwelwyr, gwylwyr a chyfranogwyr |
| **4.2.2** A yw eich cynnig wedi wynebu unrhyw wrthwynebiad? Rhowch grynodeb byr, gan gynnwys unrhyw ymgyrchoedd neu grwpiau penodol sy'n cefnogi neu'n gwrthwynebu, ac os yw'n gymwys, sut byddwch chi'n gweithio gyda nhw i ddatrys unrhyw faterion.<br><br>(250 o eiriau) | Dylai ymgeiswyr grynhoi unrhyw wrthwynebiad i'r cynnig, ei berthnasedd i'r cynnig (h.y. effaith), a beth sydd wedi'i wneud/fydd yn cael ei wneud i ddatrys hyn ac unrhyw bryderon eraill a godir yn ystod y gweithgareddau ymgysylltu â rhanddeiliaid.<br><br>Dylai ymgeiswyr egluro os oes unrhyw sensitifrwydd yn eu hymgysylltiad â rhanddeiliaid, er enghraifft os yw rhan o'r broses ymgeisio heb ei gwneud yn gyhoeddus neu os yw'r cynnig yn mynnu prynu adeiladau'n orfodol.<br><br>Darparwch resymeg os na fu modd ymgysylltu â rhai rhanddeiliaid, a sut y lliniarwyd unrhyw effeithiau hyn. |
| **4.2.3** A oes gennych gyfrifoldeb statudol am | Rhaid i ymgeiswyr nad oes ganddynt gyfrifoldeb statudol am gyflawni'r holl agweddau ar eu cynnig, |

| | |
|---|---|
| gyflawni'r holl agweddau ar y cynnig?<br><br>Os **nac oes**:<br><br>- Cadarnhewch y rhannau hynny o'r prosiect nad oes gennych gyfrifoldeb statudol drostynt<br>- Cadarnhewch pwy yw'r awdurdod cyfrifol perthnasol<br>- Cadarnhewch fod gennych gefnogaeth/ gydsyniad yr awdurdod cyfrifol perthnasol | sicrhau cefnogaeth/cydsyniad yr awdurdod cyfrifol perthnasol cyn symud ymlaen.<br><br>Rhaid i'r holl gynigion gydag elfen drafnidiaeth ddarparu pro forma o gefnogaeth gan yr awdurdod perthnasol sydd â chyfrifoldeb statudol am drafnidiaeth oni bai bod cyfrifoldeb statudol gan yr ymgeisydd, ac os felly, dylai'r ymgeisydd ddatgan N/A.<br><br>**Ar gyfer unrhyw gynigion yn Lloegr, yr Alban a/neu Gymru** lle nad oes cyfrifoldeb statudol gan yr ymgeisydd i gyflawni holl elfennau trafnidiaeth ei gynnig, mae'n ofynnol iddo ddangos bod ganddo gefnogaeth yr holl awdurdodau sydd â chyfrifoldeb statudol perthnasol cyn symud ymlaen gyda'i gais. Llenwch pro forma 1.<br><br>Byddai angen i geisiadau'n gysylltiedig â'r rheilffordd gael cefnogaeth Network Rail, a byddai angen i geisiadau ar gyfer seilwaith ar y Rhwydwaith Ffyrdd Strategol gael cefnogaeth National Highways, er enghraifft.<br><br>**Ar gyfer unrhyw gynigion yng Ngogledd Iwerddon** sydd ag elfennau trafnidiaeth, mae cefnogaeth gan y cyngor lleol perthnasol a Gweithrediaeth Gogledd Iwerddon (os yw'n gynnig nad yw'n cael ei arwain gan y sector cyhoeddus) yn ofyniad cymhwystra. Llenwch pro forma 4. |

### 4.3 Yr Achos dros Fuddsoddi

Dylai ymgeiswyr ddefnyddio'r adran hon i nodi manylion achos grymus dros pam mae'r buddsoddiad arfaethedig yn cefnogi blaenoriaethau economaidd, cymunedol a diwylliannol eu hardal leol.

Dylai ymgeiswyr lanlwytho'u model Damcaniaeth Newydd wedi'i chwblhau sy'n cefnogi'r adran hon adeg cyflwyno.

Ar gyfer cynigion pecyn, dylid darparu esboniad o ran sut mae'r prosiectau cydrannol yn gydnaws â'i gilydd ac yn creu set gydlynus o ymyriadau.

| | |
|---|---|
| **4.3.1** Darparwch dystiolaeth o'r heriau / rhwystrau lleol rhag twf a'r cyd-destun y mae'r cynnig yn ceisio ymateb iddynt.<br><br>(500 o eiriau) | Dylai ymgeiswyr ddarparu tystiolaeth feintiol o'r heriau a'r rhwystrau lleol rhag twf, a nodi sut bydd yr ymyriad/au cynlluniedig yn mynd i'r afael â'r rhain.<br><br>Gallai tystiolaeth gynnwys (ond nid yw'n gyfyngedig i) data yn ymwneud â: |

| | |
|---|---|
| | - Data ar fanylion cyflogaeth, lefelau incwm, amddifadedd, sgiliau a chyrhaeddiad addysgol<br>- Cyfraddau swyddi gweigion a nifer y bobl sy'n mynd a dod<br>- Tir a heriau datblygu<br>- Heriau trafnidiaeth gan gynnwys cysylltedd gwael ag asedau presennol, tagfeydd a materion ansawdd aer<br>- Troseddu ac ymddygiad gwrthgymdeithasol<br><br>Dylai ceisiadau trafnidiaeth ystyried tystiolaeth o fewn y cyd-destun lleol gan nodi ffynonellau'n glir.<br>Gallai hyn gynnwys:<br>- Dibynadwyedd y rhwydwaith (e.e. cyfraddau canslo, tagfeydd, lefelau capasiti, amrywioldeb mewn amserau siwrneiau)<br>- Data ar ddiogelwch gan gynnwys cyfraddau damweiniau.<br>- Data amgylcheddol gan gynnwys ansawdd yr aer ac allyriadau carbon.<br>- Bodlonrwydd â siwrneiau<br>- Amser a gymerwyd i gyrraedd nifer benodedig o swyddi neu wasanaethau<br>- Data ar ddulliau teithio.<br>- Data ar nifer y gwasanaethau, gwariant a mapiau yn dangos y rhwydwaith trafnidiaeth presennol<br><br>Dylai ceisiadau Treftadaeth/Diwylliannol ystyried darparu rhywfaint o'r dystiolaeth ganlynol hefyd. Dylid pennu cyd-destun y rhain o fewn y cyd-destun lleol:<br><br>- Gweledigaeth ddiwylliannol/greadigol/gymunedol/ chwaraeon.<br>- Rhaglen greadigol/wedi'i churadu/chwaraeon cymunedol.<br>- Ystod o raglenni (e.e. rhaglenni llyfrgelloedd cyhoeddus sy'n mynd y tu hwnt i ddiwylliant, fel cymorth busnes, iechyd a lles, llythrennedd).<br>- Hanes blaenorol ymarferwyr.<br>- Lefel y galw.<br>- Ar gyfer casgliadau treftadaeth/amgueddfa, sut bydd yr asedau'n cael eu cynnal a'u cadw/ gwarchod yn unol ag arfer statudol ac arfer gorau.<br>- Gwelliannau i'r ddarpariaeth mannau cyhoeddus a chyfleusterau cymunedol.<br>- Budd ymgysylltu â chynulleidfaoedd/cyfranogwyr/ defnyddwyr – cyrhaeddiad/amrywiaeth/dyfnder ymgysylltu.<br>- Datblygiad cynulleidfaoedd/cyfranogwyr/ defnyddwyr – gan gynnwys segmentau. |

| | |
|---|---|
| | - Cynnig diwylliannol, treftadaeth, chwaraeon presennol, a'r ddarpariaeth cyfleusterau cymunedol, beth yw'r canfyddiad ohonynt, pa mor dda y maen nhw eisoes yn ysbrydoli cydlyniant cymdeithasol/balchder mewn lle ac atyniad lle<br>- Lefelau ymgysylltiad/ galw yn lleol<br>- Gwerth ychwanegol y byddai'r prosiect hwn yn ei greu (yn enwedig ar gyfer uwchraddiadau). |
| **4.3.2** Eglurwch pam mae angen buddsoddiad Llywodraeth (beth yw'r methiant yn y farchnad).<br><br>(600 o eiriau) | Dylai ymgeiswyr egluro pa fethiant(fethiannau) yn y farchnad sy'n bresennol a pham mae angen ymyriad gan Lywodraeth. Bydd methiant yn y farchnad yn digwydd lle nad yw marchnad yn gallu gweithredu yn unol â syniadau economaidd marchnadoedd effeithlon. O safbwynt Llyfr Gwyrdd, sy'n edrych y tu hwn i effeithlonrwydd economaidd yn unig, mae hyn yn golygu nad yw'r farchnad yn gallu darparu lefelau effeithlonrwydd lles digonol.<br><br>Mae enghreifftiau o fethiannau'r farchnad yn cynnwys, ond nid yn gyfyngedig i'r canlynol:<br><br>- Nwyddau cyhoeddus – nwyddau nad ydynt yn cael eu darparu gan y sector preifat gan na fyddent yn gallu eu cyflenwi am elw – er enghraifft, seilwaith ffyrdd neu weithgareddau creu lle. Yn aml, ni ddarperir digon o nwydd cyhoeddus mewn marchnad rydd oherwydd mae ei nodweddion di-gystadleuaeth ac aneithriadwyedd yn golygu bod cymhelliad i beidio â thalu.<br>- Gwybodaeth amherffaith – ar gyfer rhai nwyddau neu wasanaethau, gallai argaeledd gwybodaeth neu anawsterau prosesu gwybodaeth atal pobl rhag gwneud penderfyniadau rhesymegol. Gall hyn fod yn rhwystr i weithgarwch economaidd gan y gellid gwireddu enillion posibl o fasnach pe bai gwybodaeth well yn galluogi pobl i ddarparu neu ddefnyddio nwyddau a gwasanaethau ychwanegol.<br>- Allanoldebau negyddol – mae'r rhain yn digwydd pan fydd gweithgaredd yn gosod costau neu'n cynhyrchu buddion i asiantau economaidd nad ydynt yn uniongyrchol gysylltiedig â'r fargen. Er enghraifft, gallai llygredd nad yw rheoleiddio'n ei gwmpasu fod yn broffidiol i'r sawl sy'n creu'r llygredd, ond gan osod costau gwirioneddol ar rai eraill nad ydynt yn uniongyrchol gysylltiedig yn y farchnad.<br><br>Lle mae ceisiadau'n cynnwys partneriaid nad ydynt yn y sector cyhoeddus, er enghraifft trwy gyflawni |

| | |
|---|---|
| | datblygiad eiddo masnachol, dylai'r ymgeisydd sicrhau ei fod yn cyfiawnhau'n glir yr angen am ymyriad llywodraeth a'r rhagdybiaethau sy'n sail i hyn. |
| **4.3.3** Amlinellwch esboniad clir am beth rydych yn bwriadu buddsoddi ynddo a pham y bydd yr ymyriadau arfaethedig yn y cynnig yn mynd i'r afael â'r heriau a'r rhwystrau hynny, gyda thystiolaeth i ategu'r esboniad hwnnw. Fel rhan o hyn, byddem yn disgwyl deall y sail resymegol ar gyfer y lleoliad.<br><br>**Ar gyfer cynigion trafnidiaeth mawr £20M - £50M,** dylai ymgeiswyr gyflwyno Adroddiad Asesu Opsiynau (OAR).<br><br>(750 o eiriau) | Dylai'r holl ymgeiswyr esbonio'n glir beth maent yn bwriadu buddsoddi ynddo a dangos tystiolaeth o'r modd y bydd yr ymyriadau cynlluniedig yn mynd i'r afael â'r heriau a'r rhwystrau dynodedig.<br><br>Dylai'r holl ymgeiswyr amlinellu'r opsiynau gwahanol a ystyriwyd fel rhan o'r broses benderfynu ar yr ymyriad a ddewiswyd, a chyfiawnhau pam mai'r ateb arfaethedig yw'r opsiwn a ffafriwyd dros rhai eraill. Fel rhan o hyn, dylai ymgeiswyr gyfiawnhau pam mai lleoliad arfaethedig y buddsoddiad yw'r opsiwn a ffafriwyd dros rhai eraill.<br><br>Anogir ymgeiswyr sy'n cyflwyno cynigion trafnidiaeth mawr £20M - £50M i gyflwyno Adroddiad Asesu Opsiynau (OAR) gan gyfeirio at dudalen 4 o Ganllawiau Dadansoddi Trafnidiaeth yr Adran Drafnidiaeth. |
| **4.3.4** Eglurwch sut byddwch chi'n cyflawni'r allbynnau a chadarnhewch sut mae'r canlyniadau'n debygol o lifo o'r ymyriadau.<br><br>Dylid dangos hyn drwy *Ddamcaniaeth Newid* y mae tystiolaeth dda ar ei chyfer. Gellir cael arweiniad pellach ar gynhyrchu Damcaniaeth Newid yn Llyfr Magenta Trysorlys EM (tudalen 24, adran 2.2.1) a chanllawiau arfarnu'r DLUHC.<br><br>(500 o eiriau) | Dylai ymgeiswyr ddefnyddio'r rhan hon i egluro'n syml a chlir sut byddant yn cyflawni'r allbynnau a chadarnhau sut mae canlyniadau'n debygol o lifo o'r ymyriadau.<br><br>Gall ymgeiswyr fod eisiau cyfeirio at y Nodyn Technegol yn **Atodiad B y Fframwaith Ymyriadau** sy'n rhoi crynodeb enghreifftiol o'r allbynnau a'r deilliannau a allai ddod o fewn cwmpas y gronfa hon. Anogir ymgeiswyr yn gryf i ddylunio'u cynigion fel bod yr allbynnau a gyflawnir yn gyson â'r rhestr hon lle bo modd - er y cydnabyddir y bydd angen eu dangosyddion teilwredig eu hunain ar rai prosiectau newydd.<br><br>Anogir ymgeiswyr i gyflwyno Damcaniaeth Newid. Yn nodweddiadol, mae datblygu Damcaniaeth Newid yn golygu ystyried y mewnbynnau arfaethedig (pa fuddsoddiadau/camau gweithredu fydd yn digwydd) a'r gadwyn achosol sy'n arwain o'r mewnbynnau hyn at yr allbynnau a'r deilliannau disgwyliedig. Mae'n ystyried y mecanweithiau achosol y disgwylir i ymyriad gyflawni |

| | |
|---|---|
| | ei ddeilliannau drwyddynt, gan seilio'r ddamcaniaeth hon ar gasglu a chyfosod tystiolaeth.<br><br>Mae llawer o offer mapio y gellir eu defnyddio i helpu archwilio'r ymyriad a sut y disgwylir iddo weithio, a disgrifir hyn yn aml fel 'damcaniaeth y rhaglen'. Mae'r rhain yn cynnwys mapio Damcaniaeth Newid, mapio rhesymegol, fframiau cofnodi, mapio buddion, a mapio systemau. Bydd yr offeryn mwyaf priodol i'w ddefnyddio yn dibynnu ar nodweddion yr ymyriad, cymhlethdod y system y'i cymhwysir iddi, a'r math o werthuso sy'n cael ei gynllunio.<br><br>Gall Damcaniaethau Newid amrywio o ddisgrifiadau syml i ddadansoddiadau mwy cymhleth. Mae ymarferiadau mwy soffistigedig yn cynhyrchu asesiad mwy manwl a thrwyadl o'r ymyriad a'i ragdybiaethau sylfaenol. |
| **4.3.5 Ar gyfer cynigion pecyn** dylech esbonio'n glir sut mae'r prosiectau cydrannol yn gydnaws a'i gilydd ac yn creu set gydlynus o ymyriadau.<br><br>(250 o eiriau) | Lle mae ymgeiswyr yn cyflwyno cynnig pecyn, dylent egluro sut mae'r holl brosiectau cydrannol yn gweithio gyda'i gilydd. Er enghraifft, gallai ymyriad trafnidiaeth ac ymyriad creu lle cysylltiedig, gyda'i gilydd, gefnogi mwy o fynd a dod a mynediad i stryd fawr leol. **Ni ddylai** cynigion pecyn gynnwys amryfal fuddsoddiadau digysylltiad. |
| **4.3.6** Os yw'n gymwys, dylai ymgeiswyr amlinellu'n fras hefyd sut y bydd cyllid cyhoeddus a chyllid preifat arall yn cael ei sicrhau fel rhan o'r ymyriad. | Amlinellwch sut y bydd cyllid cyhoeddus a chyllid preifat arall yn cael ei sicrhau fel rhan o'r ymyriad |

## 4.4. Cysondeb â'r cyd-destun lleol a chenedlaethol

Yn yr adran hon, dylai ymgeiswyr nodi'n glir eu cysondeb ag unrhyw strategaethau ac amcanion lleol a chenedlaethol perthnasol yn ymwneud â buddsoddi, seilwaith a hybu ffyniant bro. Dylai ymgeiswyr ddatgan yn eglur sut bydd y cynnig yn cynorthwyo cyflawni amcanion polisi lleol a chenedlaethol yn sylweddol.

| | |
|---|---|
| **4.4.1** Eglurwch sut mae eich cynnig yn gydnaws â, ac yn cefnogi, strategaethau lleol perthnasol (fel Cynlluniau Lleol, Strategaethau Economaidd Lleol, Strategaethau Diwylliannol Lleol neu | Dylai ymgeiswyr egluro sut mae'r cynnig yn gydnaws â, ac yn cefnogi, cyflawni strategaethau lleol perthnasol (fel cynlluniau lleol, strategaethau economaidd lleol, strategaethau diwylliannol lleol neu gynlluniau trafnidiaeth lleol) ac amcanion lleol ar gyfer buddsoddi, gwella seilwaith, datblygiad economaidd lleol a hybu ffyniant bro. |

| | |
|---|---|
| Gynlluniau Trafnidiaeth Lleol) ac amcanion lleol ar gyfer buddsoddi, gwella seilwaith a hybu ffyniant bro.<br><br>**Ar gyfer cynigion Gogledd Iwerddon, yr Alban a Chymru:**<br>Yn ogystal, eglurwch sut mae eich cynnig yn gydnaws â chynlluniau ac amcanion strategol gweinyddiaethau datganoledig.<br><br>(500 o eiriau) | Dylai cynigion trafnidiaeth amlinellu'r cyd-destun trafnidiaeth lleol penodol ac esbonio'n glir sut maent yn cefnogi strategaethau ac ymrwymiadau trafnidiaeth presennol yn eu hardal ac yn genedlaethol.<br><br>Dylai cynigion diwylliant a threftadaeth fod yn gydnaws â a chefnogi strategaethau (diwylliannol, treftadaeth, chwaraeon a hyb cymunedol) lleol. Dylai cynigion gynnwys sail resymegol ar gyfer y strategaethau y mae'n eu cefnogi, gan egluro'r cynnig diwylliannol/ treftadaeth/ chwaraeon/ cyfleuster cymunedol presennol ac ymgysylltiad, a sut mae'r strategaethau'n cysylltu â strategaethau twf a datblygu ehangach y lle.<br><br>Ar gyfer cynigion yn yr Alban, Cymru a Gogledd Iwerddon, dylai ymgeiswyr yn ogystal wneud cysylltiadau clir â'r strategaethau perthnasol o'r Gweinyddiaethau Datganoledig. |
| **4.4.2** Eglurwch sut mae'r cynnig yn gydnaws â, ac yn cefnogi, amcanion polisi Llywodraeth y DU, gan gynnwys y cenadaethau a amlinellwyd yn y Papur Gwyn Ffyniant Bro, ymrwymiadau cyfreithiol a statudol, fel cyflawni allyriadau carbon Sero Net, a gwella ansawdd yr aer. Dylai cynigion amlinellu sut byddant yn lleihau unrhyw effaith amgylcheddol negyddol a ble maent yn hyrwyddo dewisiadau amgylcheddol cadarnhaol. Dylai cynigion ar gyfer prosiectau trafnidiaeth yn arbennig esbonio'u buddion carbon yn glir.<br><br>**Ar gyfer cynigion Gogledd Iwerddon, yr Alban a Chymru:** Yn ogystal, eglurwch sut mae eich cynnig yn gydnaws ag unrhyw amcanion polisi penodol, | Dylai ymgeiswyr egluro sut mae'r cynnig yn gydnaws â ag amcanion polisi Llywodraeth y DU, ymrwymiadau cyfreithiol a statudol, fel y Strategaeth Twf Glân, y Strategaeth Aer Glân a'r targed i gyflawni allyriadau carbon Sero Net ar gyfer 2050.<br><br>Dylai cynigion fod yn gydnaws â a chefnogi nodau Sero Net: er enghraifft, wedi'u seilio ar arfer gorau carbon isel neu sero carbon; mabwysiadu a chefnogi technoleg lân arloesol a/neu gefnogi twf sgiliau gwyrdd a chadwyni cyflenwi cynaliadwy.<br><br>Dylai cynigion amlinellu sut byddant yn lleihau unrhyw effaith amgylcheddol negyddol a ble maent yn hyrwyddo dewisiadau amgylcheddol cadarnhaol.<br><br>Dylai cynigion ystyried sut y gall prosiectau weithio gyda'r amgylchedd naturiol i gyflawni amcanion prosiect – gan ystyried, man lleiaf, effaith y prosiect ar asedau naturiol a natur ein gwlad, yn ogystal â gwydnwch unrhyw brosiect cyfalaf neu seilwaith i beryglon posibl fel llifogydd.<br><br>Dylai ceisiadau trafnidiaeth yn arbennig esbonio'u buddion carbon yn glir. Ar gyfer cynigion sy'n ymwneud â buddsoddiad adfywio a chanol trefi, gallai strategaethau perthnasol gynnwys Strategaeth Ddiwydiannol y DU, Strategaethau Diwydiannol Lleol, y Strategaeth Seilwaith Genedlaethol, Cynlluniau Economaidd Strategol, Cynlluniau Lleol, strategaethau adfywio penodol i le neu gynlluniau tai. Gall ymgeiswyr |

| | |
|---|---|
| ymrwymiadau cyfreithiol a statudol sy'n berthnasol i'r gweinyddiaethau datganoledig.<br><br>(500 o eiriau) | gyfeirio hefyd at gysondeb â chynlluniau ymadfer Covid-19.<br><br>Ar gyfer cynigion yn yr Alban, Cymru a Gogledd Iwerddon, dylai ymgeiswyr, yn ogystal, wneud cysylltiadau clir â'r strategaethau perthnasol gan y Gweinyddiaethau Datganoledig. |
| **4.4.3** Lle bo'n gymwys, eglurwch sut mae'r cynnig yn cydategu / neu'n gyson â ac yn cefnogi buddsoddiadau presennol a / neu fuddsoddiadau cynlluniedig yn yr un ardal.<br><br>(uchafswm o 100 o eiriau fesul cronfa) | Dylai ymgeiswyr egluro sut bydd buddsoddiad y Gronfa Ffyniant Bro yn cydategu/yn gyson â ac yn cefnogi buddsoddiadau eraill o ffrydiau cyllido gwahanol.<br><br>Dylai ymgeiswyr ystyried cysondeb eu cynnig â buddsoddiadau cynlluniedig/ymrwymedig eraill yn yr un lleoliad, gan nodi sut y rhoddir ychwanegedd drwy fuddsoddiad y Gronfa Ffyniant Bro a sut yr osgoir dyblygu.<br><br>Lle mae buddsoddiad y Gronfa Ffyniant Bro, er enghraifft, yn gam cyntaf gweithredu strategaeth adfywio lle/canol tref, dylai'r cais ddangos sut mae'r cynnig yn cydweddu â'r weledigaeth gyffredinol ac a fyddai'n ysgogwr ar gyfer trawsnewid.<br><br>Gallai ffrydiau cyllido gynnwys y canlynol, ond nid ydynt yn gyfyngedig iddynt:<br><br>- Cylch 1 y Gronfa Ffyniant Bro<br>- Y Gronfa Trefi (gan gynnwys Cystadleuaeth Stryd Fawr y Dyfodol)<br>- Cronfa Setliad Trafnidiaeth Gynaliadwy Dinas-ranbarth<br>- Rhwydwaith y Prif Ffyrdd<br>- Prif Gynlluniau Lleol Mawr<br>- Bargeinion Dinesig a Thwf<br>- Cyllid trawsnewid bysiau<br>- Cyllid Beicio a Cherdded<br>- Cynlluniau buddsoddi UKSPF sydd ar ddod ac unrhyw fuddsoddiadau'r Gronfa Adfywio Cymunedol<br>- Porthladdoedd rhydd<br>- Parthau Gweithredu Treftadaeth y Stryd Fawr<br>- Parthau Gweithredu Treftadaeth<br>- Trawsnewid Lleoedd Trwy Dreftadaeth<br>- Dyfarniadau Grantiau Treftadaeth Gorwelion<br>- Cronfa Datblygu Diwylliannol<br>- Cronfa Amgueddfeydd, Ystadau a Datblygu (MEND)<br>- Cronfa Gwella Llyfrgelloedd<br>- Discover England Fund<br>- Great Places Scheme<br>- Northern Cultural Regeneration Fund |

| | |
|---|---|
| | - Cynigion Dinas Diwylliant y DU<br>- Rhaglen Creu Twf<br>- Pobl a Lleoedd Creadigol<br>- Rhaglen buddsoddi cyfalaf Cyngor Celfyddydau Lloegr<br>- Ac unrhyw fuddsoddiad sydd ar gan weinyddiaethau datganoledig. |
| **4.4.4** Eglurwch sut mae'r cynnig yn gyson â ac yn cefnogi disgwyliad y llywodraeth y bydd yr holl brosiectau ffyrdd lleol yn darparu neu'n gwella seilwaith beicio a cherdded, ac yn cynnwys mesurau blaenoriaeth i fysiau (oni ellir dangos nad oes fawr o angen neu ddim angen gwneud hynny). Dylai elfennau beicio cynigion ddilyn canllawiau dylunio beicio'r llywodraeth sy'n amlinellu'r safonau a fynnir.<br><br>(250 o eiriau) | Os nad yw'r cynnig yn cynnwys unrhyw elfennau'n gysylltiedig â thrafnidiaeth, nid yw'r cwestiwn hwn yn gymwys.<br><br>Lle mae cynigion yn cynnwys prosiectau ffyrdd lleol, dylai'r ymyriad ddarparu neu wella seilwaith beicio a cherdded a chynnwys mesurau blaenoriaeth i fysiau, neu roi eglurhad digonol pam nad yw hyn yn angenrheidiol.<br><br>Dylai ymgeiswyr sy'n cyflwyno cynigion gyda phrosiectau ffyrdd lleol ymgyfarwyddo â strategaethau 'Better Deal for Bus Users', 'Bus Back Better' a 'Gear Change' yr Adran Drafnidiaeth.<br><br>Os yw ymgeiswyr yn cynnig unrhyw seilwaith beicio yn eu cynnig, mae'n rhaid iddo gydymffurfio â chanllawiau dylunio beicio'r llywodraeth:<br>- Ar gyfer Lloegr a Gogledd Iwerddon<br>- Ar gyfer yr Alban<br>- Ar gyfer Cymru |
| **4.4.5** Ticiwch i gadarnhau pa rai o'r Cenadaethau canlynol o'r Papur Gwyn Ffyniant Bro (tud.120-21) y mae eich prosiect yn cyfrannu atynt:<br><br>- Safonau Byw<br>- Ymchwil a Datblygu<br>- Seilwaith Trafnidiaeth<br>- Cysylltedd Digidol<br>- Addysg<br>- Sgiliau<br>- Iechyd<br>- Lles<br>- Balchder mewn Lle<br>- Tai<br>- Troseddu<br>- Arweinyddiaeth Leol | Dylai ymgeiswyr dicio pob un o Genadaethau'r Papur Gwyn Ffyniant Bro y bydd y prosiect yn cyfrannu atynt, ac yna darparu brawddeg fer i ddangos sut mae'r cynnig yn cyfrannu at y genhadaeth.<br><br>Gellir dewis amryfal genadaethau, os yw'n gymwys. |

| | |
|---|---|
| Ac ysgrifennwch frawddeg fer i ddangos sut mae eich cynnig yn cyfrannu at y Genhadaeth (Cenadaethau). | |

## Rhan 5 Achos Economaidd

Rhaid i'r holl gostau a buddion gydymffurfio neu fod yn gyson â Llyfr Gwyrdd Trysorlys EM, Canllawiau Dadansoddi Trafnidiaeth yr Adran Drafnidiaeth a Chanllawiau Arfarnu DLUHC. Gweler y nodyn technegol hefyd.

### 5.1 Priodoldeb ffynonellau data a thystiolaeth

| | |
|---|---|
| **5.1.1** Darparwch dystiolaeth ddiweddar i ddangos graddfa ac arwyddocâd problemau a materion lleol.<br><br>(500 o eiriau) | Dylai ymgeiswyr egluro graddfa ac arwyddocâd y materion lleol y maent yn ceisio mynd i'r afael â nhw drwy'r cynnig gan ddefnyddio data ar gyfer yr ardal fwyaf perthnasol; dylid gwneud cymariaethau rhwng yr ardal a'r rhanbarth ehangach a/neu genedl i ddangos tystiolaeth o raddfa'r broblem.<br><br>Dylid darparu data o ffynonellau credadwy a chadarn. Nid yw'r rhestr ganlynol yn gyflawn ond mae'n dangos ansawdd y ffynonellau a ddisgwylir:<br>- Y Swyddfa Ystadegau Gwladol<br>- Mynegeion Amddifadedd Lluosog<br>- Arolwg o'r Llafurlu<br>- Astudiaethau cyhoeddedig<br>- Enghreifftiau blaenorol o ymyriadau tebyg<br>- Arolygon ardaloedd lleol<br>- Adroddiadau ymchwil wedi'u comisiynu gan ALl<br>- Papurau gwyn ar y maes ffocws/sector diddordeb<br>- Ffynonellau data cymharol y Gweinyddiaethau Datganoledig<br>- Data cyfrif traffig |

| | |
|---|---|
| | - Amcangyfrifon Economaidd Sectorau'r DCMS<br>- Porth Cyfalaf Diwylliant a Threftadaeth<br>- Arolwg Active Lives<br>- Arolwg Taking Part<br>- Arolygon VisitBritain<br><br>Dylai'r dadansoddiad data a'r dystiolaeth blethu i'w gilydd yn yr achos economaidd gan ddarparu naratif cryno a hawdd ei ddeall.<br><br>Dylai cynigion ag elfen drafnidiaeth ddarparu tystiolaeth glir o'r modd y mae'r system drafnidiaeth bresennol yn gweithredu, gan ystyried lefelau tagfeydd presennol ac amserau siwrneiau cyfredol at wasanaethau allweddol. Dylai hyn ddangos graddfa'r broblem (problemau) y bwriedir i'r cynllun fynd i'r afael â hi/nhw. Dylai'r dystiolaeth, yn y rhan fwyaf o achosion, gwmpasu'r lefel gwasanaeth a chapasiti a gynigir gan y rhwydwaith trafnidiaeth presennol a'r galw presennol am deithio yn yr ardal. Dylai materion cysylltiedig gael eu cefnogi hefyd gan dystiolaeth (e.e. lle mae tagfeydd/hygyrchedd yn mygu twf economaidd, dylid dangos hyn yn glir). |
| **5.1.2** Dangoswch sicrwydd ansawdd dadansoddi data a thystiolaeth ar gyfer egluro graddfa ac arwyddocâd problemau a materion lleol. Dangoswch sut mae unrhyw ddata, arolygon a thystiolaeth yn gadarn, yn ddiweddar ac yn ddiragfarn.<br><br>(500 o eiriau) | Dylai ymgeiswyr ddarparu'r ffynonellau y cymerwyd y wybodaeth a gyflwynwyd yn 5.1.1 ohonynt, ac egluro pam mae'r rhain yn ffynonellau data priodol.<br><br>Dylai ymgeiswyr gyfiawnhau pam mae'r dystiolaeth a ddefnyddiwyd yw'r un fwyaf priodol (h.y. a yw'n ddibynadwy a'r data mwyaf diweddar) ac eglurwch pam mae'n adlewyrchiad cywir o'r heriau y mae'r ardal yn eu hwynebu (h.y. nid yn destun rhagfarn).<br><br>Gallai adroddiadau casglu data fod yn ddefnyddiol ar gyfer cynlluniau trafnidiaeth. |
| **5.1.3** Dangoswch fod y data a'r dystiolaeth a gyflwynwyd yn briodol i faes dylanwad yr ymyriadau.<br><br>(250 o eiriau) | Dylai ymgeiswyr egluro sut mae'r data a ddarparwyd yn 5.1.1 yn berthnasol i'r ardal a dargedwyd ar gyfer yr ymyriad. Os yw'r data a ddarparwyd ar lefel gronynnedd is na'r ardal benodol, eglurwch pam mae'r data yn briodol.<br><br>Dylai cynigion ag elfen trafnidiaeth ddarparu manylion y farchnad deithio gan gynnwys dechreuadau a chyrchfannau allweddol, a graddfa ddaearyddol y broblem trafnidiaeth bresennol gan nodi'r ysgogwyr sylfaenol. |

## 5.2 Effeithiolrwydd y cynnig wrth fynd i'r afael â phroblemau

Yn yr adran hon, dylai ymgeiswyr amlinellu'n glir y modd y bydd y gweithgarwch a ddisgrifiwyd yn y cynnig yn mynd i'r afael â'r heriau a nodwyd.

| | |
|---|---|
| **5.2.1** Darparwch ddadansoddiad a thystiolaeth i ddangos sut bydd y cynnig yn mynd i'r afael problemau presennol neu broblemau a ragwelir yn y dyfodol. Dylid rhagamcanu effeithiau meintiol gan ddefnyddio model addas. Dylid nodi a chyfeirio at dystiolaeth Damcaniaeth Newid.<br><br>(750 o eiriau) | Dylai ymgeiswyr ddarparu cyswllt clir rhwng y broblem, y cynnig a'r effaith ddisgwyliedig, gan ddisgrifio'r rhagdybiaethau a'r modelau a ddefnyddiwyd i gyfiawnhau sut bydd y cynnig yn effeithiol o ran datrys/lliniaru'r mater/ion a nodwyd. Ar gyfer yr holl gynigion, dylid cyfeirio at dystiolaeth sy'n dangos sut mae'r mewnbynnau a'r gweithgareddau o'r Ddamcaniaeth Newid yn cysylltu'n glir â'r deilliannau a'r effeithiau y mae'r prosiect yn bwriadu eu cyflawni.<br><br>Dylid rhagamcanu effeithiau meintiol, lle bo'n briodol, gan ddefnyddio model effaith economaidd addas. Ar ei ffurf symlaf, dylai'r model ddangos y bydd % o newid i X yn arwain at % o newid i Y, yn seiliedig ar sail resymegol Z.<br><br>Gellir atodi adroddiadau casglu data ac arolygon. |
| **5.2.2** Disgrifiwch gadernid y dadansoddiad a'r dystiolaeth a ddarparwyd, fel y rhagdybiaethau rhagamcanu, methodoleg ac allbynnau'r model. Mae ffactorau allweddol i'w cwmpasu yn cynnwys ansawdd y dadansoddiad, ansawdd y dystiolaeth a chywirdeb ac ymarferoldeb y modelau a ddefnyddiwyd (500 o eiriau) | Gan gyfeirio at 5.2.1, dylai ymgeiswyr drafod pam mae'r rhagdybiaethau rhagamcanu yn rhesymol, pam mae'r fethodoleg a'r dewis o fodel yn briodol a pham mae'r dystiolaeth a ddefnyddiwyd yn gywir.<br><br>Mae ffactorau allweddol i ymdrin â nhw yn cynnwys:<br>- ansawdd y dadansoddiad<br>- ansawdd y dystiolaeth<br>- a chywirdeb ac ymarferoldeb y modelau a ddefnyddiwyd.<br><br>Dylai ymgeiswyr gyfeirio at unrhyw gyfyngiadau yn y model hefyd.<br><br>Dylai cynigion ag elfen trafnidiaeth ddarparu'r fethodoleg a ddefnyddiwyd i ragamcanu'r opsiynau 'gwneud y lleiaf' a 'gwneud rhywbeth'. Dylai'r dull a ddefnyddiwyd i ragamcanu'r galw gael ei ddisgrifio'n glir yn y cynnig. Dylai'r fethodoleg fod yn briodol a dylid darparu sail resymegol glir. Hefyd, dylai'r fethodoleg ddangos cysondeb â phrosesau rhagamcanu'r Canllawiau Dadansoddi Trafnidiaeth mewn modd cymesur. Gellir atodi adroddiad(au) dilysu model lleol ac adroddiadau rhagamcanu model. |

## 5.3 Dadansoddiad o gostau a buddion

Yn yr adran hon, dylai ymgeiswyr ddisgrifio ac egluro'r costau a'r buddion yn y **Gweithlyfr Costau a Chynllunio – Tablau A – Buddion Economaidd a Thabl A – Costau Economaidd**. Dylent ddarparu eglurhad o'r modd y caiff buddion a chostau eu dadansoddi a'u hamcangyfrif, a sut mae'r ymagwedd hon yn gymesur â'r cynnig sy'n cael ei gyflwyno.

Rhaid i'r holl gostau a buddion gydymffurfio neu fod yn gyson â Llyfr Gwyrdd Trysorlys EM (gan gynnwys canllawiau atodol), Canllawiau Arfarnu DLUHC, ac os yw'n briodol, y Canllawiau Dadansoddi Trafnidiaeth.

Mae angen i gynigion pecyn ddangos costau a buddion y pecyn cyffredinol, a'r costau a'r buddion wedi'u dadgyfuno ar gyfer pob prosiect cydrannol. Dylai tablau atodol ar gyfer prosiectau cydrannol gael eu cwblhau'n llawn.

| | |
|---|---|
| **5.3.1** Eglurwch sut mae costau economaidd y cynnig wedi'u cyfrifo, gan gynnwys y costau oes gyfan. Dylai costau fod yn gyson a'r costau yn yr achos ariannol ond wedi'u haddasu ar gyfer yr achos economaidd. Dylai hyn gynnwys, ond nid yw'n gyfyngedig i, ddarparu tystiolaeth fod costau wedi'u haddasu ar gyfer chwyddiant a'u bod wedi'u disgowntio'n ôl i flwyddyn sylfaen briodol. Yn ogystal, eglurwch sut mae risgiau ac ansicrwydd costau wedi'u hystyried a'u meintioli'n ddigonol. Rhaid egluro tuedd optimistiaeth hefyd a'i chynnwys yn yr amcangyfrifon o gostau yn yr achos economaidd.<br><br>(500 o eiriau) | Dylai ymgeiswyr egluro sut maent wedi trosi'r costau ariannol yn gostau economaidd. Dylid darparu costau economaidd ym mhrisiau blwyddyn sylfaen 'real'. Dylai costau'r dyfodol gael eu haddasu ar gyfer chwyddiant, gan drosi gwerthoedd o dermau nominal i dermau real. Dylid disgowntio costau a'u cyflwyno ar sail "gwerth presennol". |
| **5.3.2** Disgrifiwch sut mae'r buddion economaidd wedi'u hamcangyfrif, gan gynnwys trafodaeth a thystiolaeth i gefnogi rhagdybiaethau. Rhaid categoreiddio'r rhain yn ôl buddion gwahanol y cynnig. Mae buddion addas yn cynnwys, ond | Dylai ymgeiswyr ddisgrifio buddion mesuradwy'r cynnig, a lle bo modd, eu hegluro yn nhermau deilliannau.<br><br>Dylai ymgeiswyr ddisgrifio unrhyw ragdybiaethau a ddefnyddiwyd nad ydynt wedi'u disgrifio yn 5.2.1, gan gynnwys gwerthoedd uned a ddefnyddiwyd, rhagdybiaethau rhagamcanu ac ychwanegedd. Dylid darparu cyfeiriadau at ganllawiau a/neu werthoedd uned sydd wedi'u defnyddio hefyd. |

| | |
|---|---|
| heb fod yn gyfyngedig i, gynnydd uniongyrchol mewn gwerth tir, cynnydd ehangach mewn gwerth tir, buddion amwynder, buddion ansawdd aer, amserau siwrneiau llai, cefnogi cyflogaeth, neu lai o allyriadau carbon.<br><br>(750 o eiriau) | Ar gyfer cynigion trafnidiaeth, dylai'r cyfrifiadau buddion fod yn gymesur gyson â'r Canllawiau Dadansoddi Trafnidiaeth. Dylai ymgeiswyr ddarparu taenlenni allbynnau arfarnu penodol lle y'u defnyddiwyd, gan gynnwys Pecyn Cymorth Arfarnu Teithio Llesol, Pecyn Cymorth Arfarnu Priffyrdd Lleol, Pecyn Cymorth Arfarnu Cynlluniau Bach, Pecyn Cymorth Arfarnu Cynlluniau Bach yr Adran Drafnidiaeth, neu allbynnau TUBA.<br><br>Ar gyfer cynigion diwylliant a threftadaeth, gellir defnyddio'r Fframwaith Cyfalaf Diwylliant a Threftadaeth i gefnogi pennu gwerth y buddion a ddarparwyd drwy asedau diwylliant a threftadaeth. Mae'n darparu ymagwedd wedi'i ffurfioli i amcangyfrif sut mae asedau diwylliant a threftadaeth yn cyfrannu at gyflawni'r deilliannau, a sut caiff y buddion hyn eu nodi mewn fframwaith stociau a llifoedd.<br><br>Asedau, er enghraifft casgliad o gelf neu adeilad hanesyddol, yw'r "stoc", tra bod y gwasanaethau sy'n creu buddion i gymdeithas yn cael eu hystyried yn "lifoedd". Pan fydd gwerthoedd ariannol wedi'u hamcangyfrif ar gyfer y llifoedd hyn, mae'n bosibl amcangyfrif gwerth yr ased cyfan drwy ragamcanu'r gwerthoedd hyn dros gyfnod o amser.<br><br>I gael arweiniad pellach ar bennu gwerth asedau diwylliannol neu dreftadaeth, cyfeiriwch at:<br><br>- Cyngor y Celfyddydau Lloegr: Local Museums Benefit Transfer Report<br>- DCMS: Porth Cyfalaf Diwylliant a Threftadaeth<br>- Historic England: Culture and Heritage Capital |

### 5.4 Gwerth am arian

Yn yr adran hon, dylai ymgeiswyr amlinellu gwerth am arian eu cynnig, gan ystyried effeithiau â gwerth ariannol ac effeithiau heb werth ariannol, a risgiau ac ansicrwyddau.

Cyn cwblhau'r adran hon, dylai'r ymgeisydd lenwi'r **Gweithlyfr Costau a Chynllunio – Tabl A – Gwerth am Arian.**

| | |
|---|---|
| **5.4.1** Rhowch grynodeb o Werth am Arian cyffredinol y cynnig. Dylai hwn gynnwys adrodd am Gymarebau | Dylai ymgeiswyr ddarparu crynodeb o Werth am Arian cyffredinol y cynnig. Dylai hwn fod yn gyson â'r Gweithlyfr Costau a |

| | |
|---|---|
| Cost a Budd. Os yw Cymhareb Cost a Budd wedi'i hamcangyfrif, dylai fod esboniad clir o'r modd yr amcangyfrifir hyn h.y. nodyn am fethodoleg. Dylai Cymarebau Cost a Budd gael eu cyfrifo mewn ffordd sy'n gyson â Llyfr Gwyrdd Trysorlys EM. Ar gyfer cynigion nad ydynt yn ymwneud â thrafnidiaeth, dylai fod yn gyson â chanllawiau arfarnu DLUHC. Ar gyfer cynigion ag elfen trafnidiaeth, dylai hyn fod yn gyson â Chanllawiau Dadansoddi Trafnidiaeth yr Adran Drafnidiaeth.<br><br>(500 o eiriau)<br><br>Os yw Cymhareb Cost a Budd wedi'i hamcangyfrif, darparwch Gymhareb Cost a Budd y cynnig isod. Cyfeiriwch at ganllawiau arfarnu DLUHC a Chanllawiau Dadansoddi Trafnidiaeth yr Adran Drafnidiaeth.<br><br>Os dim ond un Gymhareb Cost a Budd sydd gennych, rhowch hon yn erbyn y Gymhareb Cost a Budd 'gychwynnol'.<br><br>Cymhareb Cost a Budd 'Gychwynnol' (cynnig sengl)<br>Cymhareb Cost a Budd 'Addasedig' (cynnig sengl) | Chynllunio perthnasol Tabl A – Gwerth am Arian.<br><br>Fel rhan o'r crynodeb hwn, disgwylir i ymgeiswyr ddisgrifio'r modd y gwnaethant gyfrifo'r Gymhareb Cost a Budd. Os yw Cymhareb Cost a Budd 'gychwynnol' ac 'addasedig' yn cael eu darparu, dylai ymgeiswyr egluro pa gategorïau buddion sydd wedi'u cynnwys ym mhob un.<br><br>Cyfeiriwch at Lyfr Gwyrdd Trysorlys EM, canllawiau arfarnu DLUHC a Chanllawiau Dadansoddi Trafnidiaeth yr Adran Drafnidiaeth. ar Gymarebau Cost a Budd 'cychwynnol' ac 'addasedig'.<br><br>Anogir ymgeiswyr i atodi nodyn esboniadol manylach yn egluro sut mae'r Gymhareb Cost a Budd wedi cael ei chyfrifo. |
| **5.4.2** Disgrifiwch yr effeithiau heb werth ariannol y bydd y cynnig yn eu cael a rhowch grynodeb o'r modd yr aseswyd y rhain, gan gynnwys graddfa ddisgwyliedig yr effeithiau hyn. Bydd y rhain yn cael eu hymgorffori yn asesiad cyffredinol Gwerth am Arian y cynnig.<br><br>(500 o eiriau) | I ymateb i'r cwestiwn hwn, dylai ymgeiswyr drafod unrhyw effeithiau heb werth ariannol y bydd y cynnig yn eu cael, gan gynnwys asesiad o ba mor arwyddocaol y gallai'r effeithiau heb werth ariannol fod.<br><br>Dylai ymgeiswyr sy'n cyflwyno cynigion treftadaeth/diwylliannol ystyried, ymhellach i'r effaith economaidd y gellir ei meintioli, bod yna fuddion pwysig eraill yn gysylltiedig â'r ymyriad diwylliant, creadigol a safleoedd treftadaeth, y mae'n anoddach pennu gwerth ariannol iddynt. Gellir cynnwys y rhain fel buddion heb werth ariannol gan gydnabod bod nifer gyfyngedig o |

| | |
|---|---|
| | astudiaethau sydd wedi pennu gwerth ariannol i'r buddion hyn. |
| **5.4.3** Darparwch asesiad o'r risgiau a'r ansicrwyddau a allai effeithio ar Werth am Arian cyffredinol y cynnig. | I ymateb i 5.4.3, dylai ymgeiswyr ddarparu asesiad o'r risgiau a'r ansicrwyddau a allai effeithio ar Werth am Arian cyffredinol y cynnig.<br><br>Disgwylir i ymgeiswyr ddarparu canlyniadau dadansoddiad o sensitifrwydd yma. Dylai rhagdybiaethau fod yn amrywiol i ddangos y modd y mae canlyniad y Gwerth am Arian cyffredinol yn sensitif i newidiadau mewn rhagdybiaethau, er enghraifft effaith lleihad yn y galw am drafnidiaeth ar ôl COVID. |
| **5.4.4** Ar gyfer cynigion trafnidiaeth, byddem yn disgwyl i'r Tabl Arfarnu Cryno fod wedi'i gwblhau i alluogi ystyried ystod lawn o effeithiau trafnidiaeth.<br><br>**Ar gyfer cynigion pecyn**, darparwch Dabl Arfarnu Cryno ar gyfer pob prosiect cydrannol.<br><br>Dylid cyfeirio at unrhyw dystiolaeth ychwanegol i gefnogi'ch ymatebion i'r rhan hon yn eich ymatebion (5.1.1 – 5.4.3) a'i hatodi fel atodiad sengl.<br><br>Dylai ymgeiswyr ddarparu taenlenni allbynnau arfarnu penodol lle bo'n berthnasol, gan gynnwys Pecyn Cymorth Arfarnu Teithio Llesol, Pecyn Cymorth Arfarnu Priffyrdd Lleol, Pecyn Cymorth Arfarnu Cynlluniau Bach neu allbynnau'r arfarniad o fuddion i ddefnyddwyr trafnidiaeth (TUBA). | Ar gyfer cynigion trafnidiaeth, anogir ymgeiswyr i gyflwyno Tabl Arfarnu Cryno ar gyfer eu prosiect.<br><br>Ar gyfer cynigion trafnidiaeth sydd hefyd yn gynigion pecyn, anogir ymgeiswyr i gyflwyno Tabl Arfarnu Cryno ar gyfer pob prosiect cydrannol.<br><br>Dylid cyfeirio at unrhyw dystiolaeth ychwanegol i gefnogi'ch ymatebion i'r rhan hon yn eich ymatebion (5.1.1 – 5.4.3) a'i hatodi fel atodiad sengl.<br><br>Dylai ymgeiswyr ddarparu taenlenni allbynnau arfarnu penodol lle bo'n berthnasol, gan gynnwys Pecyn Cymorth Arfarnu Teithio Llesol, Pecyn Cymorth Arfarnu Priffyrdd Lleol, Pecyn Cymorth Arfarnu Cynlluniau Bach neu allbynnau'r arfarniad o fuddion i ddefnyddwyr trafnidiaeth (TUBA). |

## Rhan 6 Ymarferoldeb Cyflawni

### 6.1 Ariannol

Yn yr adran hon, mae'n ofynnol i ymgeiswyr ddarparu manylion clir a chadarn am yr agweddau ariannol ar y cynnig, gan gynnwys ffynonellau, statws a sicrhawyd, a'r math o arian cyfatebol, costau prosiectau, risgiau ariannol a mesurau lliniaru, a sut

mae'r cyllid wedi'i strwythuro - e.e. os ydych chi'n bwriadu alldalu rhagor o grant y Gronfa Ffyniant Bro gyda phartneriaid y cynnig.

Dylid dangos costau rheoli ac ymgynghori yn glir yng nghyllideb y prosiect, a dylid egluro unrhyw waith sydd i'w is-gontractio ar y ffurflen gais.

Cyn cwblhau'r rhan hon, dylai ymgeiswyr gwblhau'r **Gweithlyfr Costau a Chynllunio** perthnasol **- Tabl B - Proffil Ariannu a Thabl C - Amcangyfrifon Costau**.

| | |
|---|---|
| **6.1.1** Cadarnhewch gyfanswm gwerth eich cynnig. | Dylai ymgeiswyr gadarnhau cyfanswm gwerth y cynnig, a dylai hyn gynnwys grant y Gronfa Ffyniant Bro ac unrhyw arian cyfatebol.<br><br>Dylai'r holl wariant gael ei dalu erbyn Mawrth 2024 (neu Fawrth 2025 ar gyfer prosiectau mawr rhwng £20M a £50M). |
| **6.1.2** Cadarnhewch werth y grant cyfalaf rydych chi'n gofyn amdano gan y Gronfa Ffyniant Bro. | Dylai ymgeiswyr gadarnhau cyfanswm gwerth y Gronfa Ffyniant Bro y maent yn ei geisio. Caiff ymgeiswyr eu hatgoffa y bydd y Gronfa Ffyniant Bro ond yn ariannu costau cyfalaf uniongyrchol sy'n gysylltiedig â chyflawni'r prosiect. |
| **6.1.3** Cadarnhewch werth yr arian cyfatebol a sicrhawyd.<br><br>Os bydd angen sicrhau arian cyfatebol i'w sicrhau o hyd, amlinellwch y manylion isod. Os oes unrhyw fylchau cyllido, amlinellwch eich cynlluniau ar gyfer mynd i'r afael â'r rhain.<br><br>(250 o eiriau) | Bydd cyfraniadau arian cyfatebol lleol yn cael eu hystyried yn ystod yr asesiad. Anogir cyfraniad lleol o 10% neu'n uwch (awdurdod lleol a/neu drydydd parti) o gostau'r cynnig.<br><br>Gall arian cyfatebol gynnwys cymysgedd o gyfraniadau'r sector cyhoeddus a'r sector preifat.<br><br>Dylai ymgeiswyr nodi y disgwylir cyfraniad gan randdeiliaid sector preifat, fel datblygwyr, os ydynt yn mynd i elwa o gynnig penodol.<br><br>Anogir ymgeiswyr i gyflwyno tystiolaeth o arian cyfatebol e.e. llythyrau arian cyfatebol. Dylai llythyrau arian cyfatebol gael eu llofnodi gan awdurdod priodol, dylent gyfeirio'n glir at swm y cyllid sydd wedi'i ymrwymo i'r prosiect (o fewn cwmpas cynnig y Gronfa Ffyniant Bro) a dylent amlinellu unrhyw amodau a allai fod yn gymwys i'r cyllid.<br><br>Dylai ymgeiswyr egluro pa fylchau cyllido sy'n bodoli, os oes rhai, a pha waith pellach sydd angen ei wneud i sicrhau cyfraniadau ariannu trydydd parti.<br><br>Amlinellwch yn glir eich ymagwedd at godi arian ychwanegol. |

| | |
|---|---|
| **6.1.4** Os ydych chi’n bwriadu gwneud cyfraniad tir (trwy ddefnyddio tir a berchnogir yn barod), rhowch fanylion pellach isod a chadarnhewch pwy sy’n berchen y tir ar hyn o bryd, manylion unrhyw gyfyngiadau a’r gwerth ariannol amcangyfrifedig.<br><br>(250 o eiriau) | Ar gyfer cyfraniadau tir, mae’n ofynnol i ymgeiswyr gyflwyno llythyr gan brisiwr annibynnol i wirio gwir werth marchnad y tir.<br><br>Dylid amlinellu perchnogaeth bresennol y tir, ac unrhyw gyfyngiadau ar ei ddefnyddio, yma hefyd. |
| **6.1.5** Cadarnhewch os yw cyllideb eich prosiect yn cynnwys costau TAW anadferadwy a disgrifiwch beth yw’r rhain, gan ddarparu manylion pellach isod.<br><br>(250 o eiriau) | Dylai ymgeiswyr gadarnhau os yw eu cyllideb yn cynnwys costau TAW anadferadwy a dylent ddatgan beth yw’r rhain. |
| **6.1.6** Disgrifiwch pa weithgarwch meincnodi neu ymchwil rydych wedi ymgymryd ag ef i’ch helpu i bennu’r costau rydych wedi’u cynnig yn eich cyllideb. Cynghorwch ynglŷn ag unrhyw ragdybiaethau.<br><br>(750 o eiriau) | Ar gyfer pob eitem cost, dylai ymgeiswyr ddarparu esboniad clir o’r gweithgarwch meincnodi/ymchwil i’r farchnad a wnaed i gefnogi’r gost arfaethedig, gan gynnwys manylion unrhyw ragdybiaethau. |
| **6.1.7** Darparwch wybodaeth am faint yr elw a threuliau annisgwyl y caniatawyd ar eu cyfer, a’r sail resymegol y tu ôl iddynt.<br><br>(500 o eiriau) | Dylai ymgeiswyr ddarparu esboniad clir o faint yr elw a threuliau annisgwyl y caniatawyd ar eu cyfer, a bod cyfiawnhad dros y rhain yn realistig. |
| **6.1.8** Amlinellwch isod beth yw’r prif risgiau ariannol a sut y byddant yn cael eu lliniaru, gan gynnwys sut y delir â gorwariannau a’u rhannu rhwng partneriaid cyllid nad ydynt o Lywodraeth y DU. (Dylech groesgyfeirio i’r Gofrestr Risg). | Dylai cynigion amlygu’r risgiau ariannol allweddol o’r Gofrestr Risgiau, a dylent nodi sut y delir â gorwariannau a’u rhannu rhwng partneriaid cyllid nad ydynt o Lywodraeth y DU.<br><br>Dylai unrhyw fesurau lliniaru risg arfaethedig fod yn berthnasol, yn amserol ac wedi’u costio. Yn ogystal, dylai ymgeiswyr nodi manylion y cynlluniau wrth gefn y bwriadant roi ar waith pe bai’r mesurau lliniaru’n aflwyddiannus. |

| | |
|---|---|
| (750 o eiriau) | Dylid rhoi ystyriaeth hefyd i unrhyw effeithiau ar gymunedau, grwpiau diwylliannol a grwpiau trafnidiaeth lleol, fel tarfu neu ddadleoli, gan roi costau effeithiau a mesurau lliniaru neu nodi iawndaliadau. |
| **6.1.9** Os ydych yn bwriadu dyfarnu cyfran o'ch grant y Gronfa Ffyniant Bro i bartner trwy gontract neu is-gontract, cynghorwch isod.<br>DS: Rhaid i chi sicrhau y gwneir unrhyw alldaliad pellach o'r grant yn unol â'r rheolaethau cymorthdaliadau a rheolau caffael cyhoeddus.<br><br>Yn eich ymateb, darparwch y manylion canlynol:<br><br>- Enw a chyfeiriad y partner<br>- Rôl yn y cynnig a beth fydd eu grant yn ei ariannu<br>- Cyllid y Gronfa Ffyniant Bro y bydd y partner yn ei dderbyn (£)<br>- Dull ariannu e.e., is-grant /cytundeb ariannu ac ati<br><br>(750 o eiriau) | Amlinellwch fanylion partneriaid sy'n gysylltiedig â chyflawni'r prosiect, eu rôl yn y prosiect, faint o gyllid y gallent ei dderbyn a sut (e.e. is-grant neu dan gontract), a pha weithgarwch y defnyddir y Gronfa Ffyniant Bro i'w ariannu.<br><br>Cyfrifoldeb yr ymgeisydd yw sicrhau bod unrhyw alldaliad pellach o'r grant yn cael ei wneud yn unol â rheolaethau ar gymorthdaliadau a rheolau caffael cyhoeddus.<br><br>Dylai'r cynnig nodi pa reolaethau fydd yn cael eu gweithredu i reoli'n ddigonol alldaliadau o'r grant ymlaen at unrhyw bartneriaid trwy gontract neu is-gontract. |
| **6.1.10** Pa strwythur cyfreithiol / llywodraethu ydych chi'n bwriadu ei roi ar waith gydag unrhyw bartneriaid y cynnig sydd â buddiant ariannol yn y prosiect?<br><br>(750 o eiriau) | Dylai ymgeiswyr amlinellu'n glir y strwythur cyfreithiol / llywodraethu a fydd yn cael ei roi ar waith gydag unrhyw bartneriaid prosiect sydd â buddiant ariannol yn y cynnig.<br><br>Os yw'n briodol, dylai ymgeiswyr egluro pa asesiad ariannol a diwydrwydd dyladwy sydd wedi'u cynnal neu a fydd yn cael eu cynnal ar bartneriaid y cynnig. |

### 6.2 Masnachol

O fewn yr adran hon, dylai ymgeiswyr amlinellu'u strategaeth fasnachol a chaffael ar gyfer dyfarnu a rheoli'n effeithiol unrhyw gontractau ar gyfer nwyddau, gwaith neu

wasanaethau sydd i'w hariannu gan y grant. Dylai'r strategaeth gynnwys holl weithgareddau'r cylch oes caffael, graddfeydd amser a phwy fydd yn arwain ar reoli caffael / contractwyr.

| | |
|---|---|
| **6.2.1** Crynhowch eich strwythur masnachol, dyraniad risg a strategaeth gaffael sy'n nodi'r sail resymegol ar gyfer y strategaeth a ddewiswyd ac opsiynau eraill a gafodd eu hystyried neu'u diystyried. Dylid amlinellu'r llwybr caffael hefyd gydag esboniad ynglŷn â pham ei bod yn briodol i gynnig o'r raddfa a'r natur a gyflwynwyd.<br><br>Nodwch – rhaid gwneud yr holl gaffaeliadau yn unol â'r gofynion cyfreithiol perthnasol. Rhaid i ymgeiswyr ddisgrifio'u hymagwedd at sicrhau cydymffurfio llawn er mwyn cyflawni'u dyletswyddau cyfreithiol.<br><br>(1500 o eiriau) | Dylai ymgeiswyr amlinellu'u hymagwedd gaffael at reoli'r prosiect.<br><br>Dylai'r strategaeth gaffael fod yn gymesur â gwerth y prosiect a dylai gwmpasu'r cylch caffael llawn.<br><br>Dylai'r holl ymgeiswyr amlinellu'n glir:<br><br>- Pa gontractau allweddol fydd yn cael eu caffael<br>- Pa weithgarwch ymgysylltu/ymchwil cyn-marchnad yr ymgymerwyd ag ef hyd yma neu sydd wedi'i gynllunio<br>- P'un a oes gwiriad iechyd o'r farchnad wedi'i gynnal ai peidio i nodi unrhyw alluogrwydd neu gyfyngiadau posibl a allai effeithio ar raddfeydd amser prosiectau/caffael a sut bydd y rhain yn cael eu lliniaru.<br>- Pa ddulliau caffael sydd wedi'u harchwilio neu'u diystyru<br>- Pa lwybr i'r farchnad a gynigir, gan gynnwys eglurhad ynglŷn â pham y mae'n briodol ar gyfer graddfa / natur y contract/au?<br>- Amlinellwch sut y byddwch yn rheoli'ch contractau yn effeithiol gyda chyflenwyr/contractwyr allweddol i sicrhau ansawdd a rheoli/lliniaru risgiau cadwyni cyflenwi.<br><br>Dylai'r strategaeth gaffael ddangos cysondeb hefyd ag uchelgeisiau Sero Net, a lle bo'n briodol, gynnwys manylion ymagwedd gynaliadwy fel:<br><br>- defnyddio technoleg lân arloesol<br>- cynorthwyo twf sgiliau gwyrdd<br>- defnyddio cadwyni cyflenwi cynaliadwy<br><br>Dylai'r holl ymgeiswyr amlinellu sut bydd contractau'n cael eu caffael a'u rheoli'n effeithiol; yn unol ag arfer gorau caffael a'r holl ofynion cyfreithiol perthnasol, gan gynnwys rheoliadau contractau cyhoeddus 2015 a diwygiadau 2020 (ar ôl gadael yr UE) a deddfwriaeth briodol arall yn cynnwys y Ddeddf Caethwasiaeth Fodern, fel y bo'n gymwys.<br><br>**Yn ogystal, dylai ymgeiswyr awdurdod lleol**: |

| | |
|---|---|
| | - ddangos eu bod wedi ystyried polisïau a chanllawiau llywodraeth, gan gynnwys y Llawlyfrau Cyrchu ac Ymgynghoriaeth a'r Llawlyfr Adeiladu.<br>- dangos caffael arloesol, gan gynnwys, er enghraifft, sut maent wedi ymgorffori **gwerth cymdeithasol** yn eu caffaeliadau.<br>- amlinellu yn eu strategaeth gaffael a'u cofrestr risg sut mae canllawiau'r llywodraeth ar Resolution Planning[1] wedi'u hystyried.<br><br>Ar gyfer cynigion pecyn, nodwch fod angen i ni ddeall y gweithgareddau caffael ar gyfer pob prosiect cydrannol.<br><br>Dylid cynnwys gwybodaeth fanylach am weithgareddau caffael, graddfeydd amser, a'r adnoddau sy'n ofynnol yng nghynllun cyflawni'r prosiect. |
| **6.2.2** Pwy fydd yn arwain ar y caffaeliad a rheoli contractwyr ar y cynnig hwn, ac eglurwch pa arbenigedd a sgiliau sydd ganddynt wrth reoli caffaeliadau a chontractau o'r natur hon? Os yw'r caffaeliad yn cael ei arwain gan drydydd parti ac nid yr ymgeisydd arweiniol, darparwch fanylion isod.<br><br>(500 o eiriau) | Dylai'r ymgeisydd egluro pwy fydd yn arwain y caffaeliad/au a dangos bod y tîm prosiect craidd yn meddu ar y sgiliau a'r arbenigedd perthnasol ar gyfer rheoli caffaeliadau a chontractau. |
| **6.2.3** A ydych chi'n bwriadu rhoi unrhyw waith arall ar y cynnig hwn ar gontract allanol neu ar is-gontract i drydydd partïon? Er enghraifft, lle rydych wedi nodi bylchau galluogrwydd neu gapasiti.<br><br>(750 o eiriau) | Dylai ymgeiswyr amlinellu cynlluniau ar gyfer ymgysylltu â chyflenwyr/contractwyr allweddol fel ei bod yn glir sut mae cyflenwyr/contractwyr wedi'u dewis a sut bydd contractau'n cael eu rheoli'n effeithiol i sicrhau bod y deilliannau dymunol yn cael eu cyflawni. Dylai hyn gynnwys defnyddio dangosyddion perfformiad allweddol (DPAau) a mesurau eraill a fydd yn cael eu defnyddio i ysgogi ansawdd. |

[1] Mae canllawiau ar gynllunio penderfyniadau yn gymwys i gaffaeliadau newydd gan Awdurdodau Perthnasol o'r canlynol:
• Contractau Gwasanaethau Critigol;
• contractau gwasanaethau eraill ar gontractau allanol gyda gwerth sy'n fwy na £10m fesul blwyddyn1; a
• Chontractau Adeiladu Critigol.
("Contractau o fewn y Cwmpas" gyda'i gilydd).

| | |
|---|---|
| | Dylai ymgeiswyr amlinellu'n glir yn eu hymateb sut byddant yn rheoli unrhyw fylchau galluogrwydd neu gapasiti. |
| **6.2.4** Sut byddwch chi'n ymgysylltu â chyflenwyr allweddol i reoli'u contractau yn effeithiol fel eu bod yn cyflawni eich canlyniadau dymunol chi. Pa fesurau fyddwch chi'n eu rhoi ar waith i liniaru risgiau cyflenwyr/ contractwyr a pha reolaethau fyddwch chi'n eu gweithredu i sicrhau eu bod yn cyflawni o ran ansawdd.<br><br>(1000 o eiriau) | Dylai ymgeiswyr amlinellu pa fesurau fydd yn cael eu rhoi ar waith i reoli risgiau contractwyr / cyflenwyr. Dylai hyn gynnwys diwydrwydd dyladwy, gwirio statws ariannol ac economaidd cyflenwyr, a strwythurau contractio / talu effeithiol. |

### 6.3 Rheoli

Cyn cwblhau'r rhan hon, dylai ymgeiswyr gwblhau'r **Gweithlyfr Costau a Chynllunio** perthnasol **- Tabl D – Cyflawni Cerrig Milltir**.

| | |
|---|---|
| **6.3.1** Amlinellwch sut rydych yn bwriadu cyflawni'r cynnig (crynodeb o'ch Cynllun Cyflawni ddylai hwn fod) a dylech gynnwys:<br><br>- Cerrig milltir clir, dibyniaethau a rhyngwynebau allweddol, gofynion adnoddau, hyd tasgau a threfniadau wrth gefn.<br>- Dealltwriaeth o'r rolau a'r cyfrifoldebau, sgiliau, y galluogrwydd, neu'r capasiti sydd eu hangen<br>- Trefniadau ar gyfer rheoli unrhyw bartneriaid cyflawni a'r | Dylai ymgeiswyr amlinellu'n glir sut maent yn bwriadu cyflawni'r cynnig. Dylai'r ymateb ystyried y canlynol:<br><br>- Cerrig milltir allweddol: Mae angen i gynllun y prosiect nodi'n glir yr adeiladu ag arian cyfalaf a'r cyfnodau adeiladu, a chynnwys 'gatiau cyfnodau' y gellid eu defnyddio i wirio gwaith adeiladu a seilwaith a gwblhawyd gan unrhyw gontractiwr/gontractwyr. Dylai graddfeydd amser fod yn realistig a bodloni gofynion y cynllun.<br>- Dibyniaethau a rhyngwynebau allweddol, gofynion adnoddau, hyd tasgau a threfniadau wrth gefn<br>- Disgrifiad o rolau a chyfrifoldebau'r rheiny sy'n gysylltiedig â'r prosiect. Dylai cynlluniau nodi rolau, cyfrifoldebau ac adnoddau ar gyfer pob gweithgaredd – gan gynnwys nodi cyfrifoldebau allweddol fel rheoli prosiect, cyllid ac ati<br>- Dealltwriaeth o'r sgiliau, y galluogrwydd, neu'r capasiti sydd eu hangen - gallai rhai cynigion |

| | |
|---|---|
| cynllun ar gyfer gwireddu buddion<br>- Ymgysylltu â datblygwyr / meddianwyr (lle bo angen)<br>- Y strategaeth ar gyfer rheoli rhanddeiliaid ac ystyried eu buddiannau a'u dylanwadau.<br>- Cadarnhad o unrhyw bwerau neu gydsyniadau sydd eu hangen, a chymeradwyaethau statudol e.e., Caniatâd cynllunio a manylion gwybodaeth am berchnogaeth neu gytundebau tir/asedau sydd eu hangen i gyflawni'r cynnig gyda thystiolaeth<br>- Rhestrwch hefyd unrhyw bwerau / cydsyniadau ac ati sydd eu hangen/ a gafwyd, manylion y dyddiad a gafaelwyd, y cyfnod herio (os yw'n gymwys) a dyddiad dod i ben y pwerau ac amodau sydd wedi'u hatodi iddynt.<br><br>(1000 o eiriau) | fynnu sgiliau arbenigol. Os yw sgiliau arbenigol yn ofynnol, dylid eu hamlinellu yma.<br>- Trefniadau ar gyfer rheoli unrhyw bartneriaid cyflawni<br>- Ymgysylltu â datblygwyr/ meddianwyr (lle bo angen)<br>- Y strategaeth a'r dull cyfathrebu ar gyfer rheoli rhanddeiliaid ac ystyried eu buddiannau a'u dylanwadau.<br>- Cadarnhad o unrhyw bwerau neu gydsyniadau sydd eu hangen, a chymeradwyaethau statudol e.e., Caniatâd cynllunio a manylion gwybodaeth am berchnogaeth neu gytundebau tir/asedau sydd eu hangen i gyflawni'r cynnig gyda thystiolaeth<br>- Rhestrwch hefyd unrhyw bwerau / cydsyniadau ac ati sydd eu hangen/ a gafwyd, manylion y dyddiad a gaffaelwyd, y cyfnod herio (os yw'n gymwys) a dyddiad dod i ben y pwerau ac amodau sydd wedi'u hatodi iddynt.<br>- Yr ymagwedd at fonitro cynnydd y prosiect gan gynnwys rheoli cyllideb. Dylai buddion datganedig fod wedi'u diffinio'n dda ac yn fesuradwy fel rhan o'r broses monitro a gwerthuso<br>- Unrhyw wybodaeth arall i gefnogi'r dull cyflawni<br><br>Anogir ymgeiswyr i gyflwyno cynllun cyflawni manwl i gefnogi'u hymateb i'r cwestiwn hwn. Dylai'r cynllun cyflawni fod yn gymesur ac yn realistig i'r cynnig a gyflwynwyd, a dylai'r llinellau amser a gyflwynwyd fod yn ymarferol, gan ganiatáu digon o amser ar gyfer pob cyfnod o'r rhaglen.<br><br>Anogir ymgeiswyr hefyd i gyflwyno tystiolaeth o gydsyniadau statudol/caffaeliadau tir. |
| **6.3.2** Dangoswch y gellir cyflawni rhywfaint o weithgarwch y cynnig yn 2022-23.<br><br>(250 o eiriau) | Cadarnhewch y cynlluniau ar gyfer gweithgarwch prosiect y Gronfa Ffyniant Bro yn 2022-23. |
| **6.3.3** Rheoli Risg: Gofynnir i ymgeiswyr amlinellu asesiad risg manwl sy'n cynnwys: | Anogir ymgeiswyr i gyflwyno Cofrestr Risg i gefnogi'u hymateb i'r cwestiwn hwn. Gall hwn fod ar unrhyw fformat ond dylai ddarparu digon o wybodaeth am risgiau a ddiffiniwyd yn glir gydag effeithiau, perchnogion, dyddiadau, mesurau lliniaru a chostau. |

| | |
|---|---|
| - y rhwystrau a lefel y risg i gyflawni eich cynnig<br>- trefniadau priodol ac effeithiol ar gyfer rheoli a lliniaru'r risgiau hyn<br>- dealltwriaeth glir am rolau / cyfrifoldebau ar gyfer rheoli risg ac adrodd am risg<br><br>Nodwch fanylion unrhyw risgiau allweddol y nodoch fel rhan o'ch asesiad risg ar gyfer y cynnig hwn, a manylion mesurau lliniaru. Dylai hyn fod yn gyson â'ch cofrestr risg.<br><br>(500 o eiriau) | Wrth ymateb i'r cwestiwn hwn, dylai ymgeiswyr amlinellu asesiad risg manwl, yn cwmpasu pob mathau o risgiau, gan gynnwys, er enghraifft, risgiau amgylcheddol, iechyd a diogelwch, tynnu cyllid yn ôl, anghydfodau posibl rhwng partneriaid, risgiau cyfreithiol, enw da, cyflawni ac ati. Dylai'r asesiad risg ddangos y rhoddwyd ystyriaeth ofalus i bob un o'r risgiau posibl a'i fod wedi cwmpasu cylch oes y prosiect cyfan.<br><br>Ar gyfer cynigion pecyn, amlinellwch yr asesiad risg a mesurau lliniaru ar gyfer pob prosiect cydrannol. |
| **6.3.4** Darparwch fanylion eich tîm prosiect craidd a rhowch dystiolaeth o'u hanes blaenorol a phrofiad o gyflawni cynlluniau o'r natur hon.<br><br>Eglurwch a ydych yn bwriadu is-gontractio unrhyw ran o'r gwaith hwn neu a yw trydydd parti yn rheoli'r prosiect ac nid y sefydliad sy'n ymgeisio.<br><br>(750 o eiriau) | Dylai ymgeiswyr egluro'u rolau a'r bobl sy'n gysylltiedig yn y tîm prosiect craidd, a dangos bod y sgiliau, y profiad a'r galluoedd angenrheidiol ganddynt i gefnogi cyflawni'r prosiect yn llwyddiannus trwy bob cam allweddol y prosiect.<br><br>Dylai ymgeiswyr amlinellu'r mesurau y byddant yn eu rhoi ar waith i fynd i'r afael ag unrhyw fylchau mewn capasiti neu alluogrwydd.<br><br>Dylid dangos hanes blaenorol o gyflawni prosiectau tebyg, er enghraifft, o ran maint, gwerth, neu gymhlethdod. Anogir ymgeiswyr i ddarparu astudiaethau achos.<br><br>Os yw trydydd parti yn rheoli'r prosiect ac nid yr awdurdod sy'n ymgeisio, dylai'r ymgeisydd amlinellu'n glir yn yr adran hon sut bydd y trefniant hwn yn gweithio. |
| **6.3.5** Amlinellwch pa weithdrefnau llywodraethu fydd yn cael eu rhoi ar waith i reoli'r grant a'r prosiect.<br><br>Byddwn yn gofyn am gadarnhad y Prif Swyddog | Mae'n ofynnol i'r holl ymgeiswyr ddisgrifio pa weithdrefnau llywodraethu a sicrwydd fydd yn cael eu rhoi ar waith i reoli'r grant a'r prosiect. Gallai hyn gynnwys (ond heb fod yn gyfyngedig i):<br><br>- Awdurdod dirprwyedig – gan gynnwys cymeradwyaethau Bwrdd neu Bwyllgor y Prosiect<br>- Rheolaethau ariannol |

| | |
|---|---|
| Ariannol y bydd systemau sicrwydd digonol ar waith.<br><br>**Ar gyfer cynigion trafnidiaeth mawr**, dylech gyfeirio hefyd at eich Cynllun Sicrwydd a Chymeradwyaeth Integredig, a ddylai gynnwys manylion am wiriadau iechyd cynlluniedig neu adolygiadau o'r porth.<br><br>(750 o eiriau) | - Archwilio<br>- Atal twyll, llygredd a llwgrwobrwyo<br>- Gweithdrefnau i osgoi Gwrthdaro Buddiannau<br>- Seiberddiogelwch, a rheoli data<br>- Cod ymddygiad yn gosod safonau ar gyfer ymddygiad moesegol a phroffesiynol.<br><br>Dylai ymgeiswyr ystyried hefyd sut i gyfleu a llywio polisi a gweithdrefnau llywodraethu i bartneriaid sy'n gweithio ar y prosiect, sut yr adroddir ar gynnydd a'i adolygu, ac ymglymiad y bwrdd ac uwch reolwyr mewn penderfyniadau.<br><br>Wrth ymateb i'r cwestiwn hwn anogir ymgeiswyr i gyfeirio at God Ymddygiad Cyhoeddedig EM ar gyfer Derbynyddion Grantiau Cyffredinol y Llywodraeth.<br><br>Ar gyfer cynigion trafnidiaeth mawr, dylai ymgeiswyr gael **Cynllun Sicrwydd a Chymeradwyaeth Integredig**. Dylai hwn gynnwys manylion am wiriadau iechyd cynlluniedig neu adolygiadau o'r porth..<br><br>Gallai cynigion eraill gyflwyno Cynllun Sicrwydd a Chymeradwyaeth Integredig, os oes un ganddynt. Os nad oes, dylent amlinellu eu proses sicrwydd a chymeradwyo yma. |
| **6.3.6** Os yw'n gymwys, eglurwch sut byddwch chi'n talu'r costau gweithredol ar gyfer rheoli'r ased / cyfleuster newydd o ddydd i ddydd pan fydd wedi'i gwblhau, i sicrhau bod buddion y prosiect yn cael eu gwireddu. Dylech hefyd ystyried unrhyw gostau cynnal a chadw parhaus a chostau gwasanaethu.<br><br>Nodwch nad yw grant y Gronfa Ffyniant Bro yn talu'r costau hyn.<br><br>(750 o eiriau) | Dylai asedau/cyfleusterau ddarparu gwerth a bod yn gynaliadwy (yn ariannol).<br><br>Dylai ymgeiswyr amlinellu sut byddant yn talu'r costau gweithredol ar gyfer rheoli'r ased/cyfleuster newydd o ddydd i ddydd pan fydd wedi'i gwblhau, i sicrhau bod buddion y prosiect yn cael eu gwireddu.<br><br>Dylai ymgeiswyr hefyd ystyried unrhyw gostau cynnal a chadw parhaus a chostau gwasanaethu.<br><br>Enghreifftiau o gostau gweithredol: cyfleustodau, systemau, cynnal a chadw ac atgyweiriadau, staff a llafur, treuliau gweinyddu ac ati.<br>Nodwch nad yw grant y Gronfa Ffyniant Bro yn talu'r costau hyn.<br><br>**Ar gyfer cynigion diwylliannol** a fydd yn gofyn bod sefydliad, awdurdod lleol neu gorff arall yn gweithredu'r ased/ cyfleuster canlyniadol, eglurwch sut bydd y sefydliad hwnnw'n rheoli'r ased/cyfleuster mewn ffordd gynaliadwy hirdymor i gyflawni gwerth yn |

| | |
|---|---|
| | unol â'r nodau hynny a amlinellwyd yn yr Achos dros Fuddsoddi.<br><br>Lle mae hyn yn gymwys, bydd angen i ymgeiswyr nodi manylion:<br>• Disgrifiad lefel uchel o'r gwerth diwylliannol ac ehangach sy'n cael ei gyflawni (gelwir weithiau yn "Ddatganiad Cenhadaeth Ddiwylliannol" neu rywbeth tebyg)<br>• Disgrifiad o'r modd y bydd pobl/grwpiau cynulleidfa yn cael eu hannog i ymgysylltu â'r ased newydd dros gyfnod (weithiau gelwir yn Gynllun Ymgysylltu â Chynulleidfaoedd" neu rywbeth tebyg) gyda ffocws penodol ar bobl â lefelau ymgysylltu is yn nodweddiadol.<br>• Cynlluniau gweithgarwch lefel uchel.<br>• Modelu ariannol (gan gynnwys cyllidebau Incwm a Gwariant gydag esboniad o ffynonellau incwm, unrhyw angen am gyllid refeniw/ codi arian/datblygiad a strategaethau ar gyfer cyflawni'r rhain)<br><br>Ar gyfer cynigion diwylliannol sylweddol sy'n cynnwys y rheiny â model gweithredol cymhleth, gallwch fod eisiau lanlwytho mwy o wybodaeth ar ffurf atodiad ychwanegol byr os na allwch ddarparu popeth o fewn y terfyn geiriau hwn. |

**6.4 Monitro a Gwerthuso**

Cyn cwblhau'r rhan hon, dylai ymgeiswyr gwblhau'r **Gweithlyfr Costau a Chynllunio** perthnasol **- Tabl E – Monitro a Gwerthuso**.

| | |
|---|---|
| 6.4.1 Cynllun Monitro a Gwerthuso: Amlinellwch gynlluniau cymesur ar gyfer monitro a gwerthuso a ddylai gynnwys:<br><br>- Nodau'r monitro a gwerthuso ar lefel y cynnig, gan gynnwys cwestiynau allweddol yn ymwneud â gwerthuso a dysgu i'w hateb | Dylai ymgeiswyr gyfeirio at Atodiad E yn y Nodyn Technegol ac egluro beth yw eu cynlluniau ar gyfer bodloni gofynion monitro a gwerthuso'r Gronfa, yn ogystal â bodloni eu huchelgeisiau eu hunain ar gyfer dysgu, a phennu'r effaith, ar y lefel leol.<br><br>Dylai'r cynllun hwn gwmpasu:<br>- Nodau'r monitro a gwerthuso ar lefel y cynnig, gan gynnwys cwestiynau allweddol yn ymwneud â gwerthuso a dysgu i'w hateb, yn gyson ag amcanion y cynnig a'r Ddamcaniaeth Newid.<br>- Cydrannau a chyflawniadau allweddol y monitro a'r gwerthuso ar lefel y cynnig (e.e. gwerthusiadau |

| | |
|---|---|
| - Cydrannau a chyflawniadau allweddol y monitro a'r gwerthuso ar lefel y cynnig (e.e. gwerthusiadau o brosesau ac effaith; adroddiadau interim a therfynol) a sut bydd y rhain yn cael eu defnyddio a'u lledaenu er mwyn hyrwyddo dysgu.<br>- Ymagwedd at fonitro a gwerthuso ar lefel y cynnig, gan gynnwys sut y sicrheir bod data'n cael ei gasglu mewn modd cywir ac amserol, a sut bydd y data'n cael ei ddefnyddio yn y gwerthusiad o'r cynnig<br>- Trefniadau llywodraethu a darparu adnoddau ar gyfer monitro a gwerthuso ar lefel y cynnig, gan gynnwys personél/ sefydliadau allweddol a chyllidebau<br>- Crynodeb o allbynnau, deilliannau ac effeithiau allweddol y prosiect, wedi'u llywio gan amcanion y cynnig a'r Ddamcaniaeth Newid<br>- Dylai gweithgareddau monitro a gwerthuso gael eu cynnwys yn Nhabl E yn y Gweithlyfr perthnasol Costau a Chynllunio<br><br>(1000 o eiriau) | o brosesau ac effaith; adroddiadau interim a therfynol) a sut bydd y rhain yn cael eu defnyddio a'u lledaenu er mwyn hyrwyddo dysgu<br>- Amlinellu'r ymagwedd at fonitro a gwerthuso ar lefel y cynnig, gan gynnwys sut y sicrheir bod data'n cael ei gasglu mewn modd cywir ac amserol, a sut bydd y data'n cael ei ddefnyddio yn y gwerthusiad o'r cynnig<br>- Trefniadau llywodraethu a darparu adnoddau ar gyfer monitro a gwerthuso ar lefel y cynnig, gan gynnwys personél/sefydliadau allweddol a chyllidebau<br>- Crynodeb o allbynnau, deilliannau ac effeithiau allweddol, wedi'u llywio gan amcanion y cynnig a'r Ddamcaniaeth Newid<br>- Dylai gweithgareddau monitro a gwerthuso gael eu cynnwys yn Nhabl E yn y Gweithlyfr perthnasol Costau a Chynllunio.<br><br>Dylai cynlluniau gwerthuso fod yn gymesur â maint a chymhlethdod y prosiect sydd i'w gyflawni.<br><br>Ar gyfer prosiectau mawr, dylai ymgeiswyr geisio mynd i'r afael ag ymholiadau cymhleth (e.e., priodoli effaith).<br><br>Gall cynlluniau monitro a gwerthuso gynnwys amryfal ymagweddau, yn gyson â chyfnodau gwahanol y prosiect sy'n cael ei gyflawni. |

## Rhan 7 Datganiadau

| 7.1 Datganiad Uwch Berchennog Cyfrifol |
|---|
| |

| |
|---|
| Cwblhewch pro forma 7 Datganiad Uwch Berchennog Cyfrifol. |
| **7.2 Datganiad y Prif Swyddog Cyllid** |
| Cwblhewch pro forma 8 Datganiad y Prif Swyddog Cyllid. |
| **7.3 Diogelu Data**<br><br>Nodwch fod yr Adran Ffyniant Bro, Tai a Chymunedau (DLUHC) yn rheolwr data ar gyfer yr holl ddata personol a gesglir yn ymwneud â'r Gronfa Ffyniant Bro gyda'r ffurflenni perthnasol yn cael eu cyflwyno i DLUHC, ac mae'n gyfrifol am reoli a phrosesu Data Personol.<br><br>Gall yr Adran, a'i chontractwyr lle bo'n berthnasol, brosesu'r Data Personol y mae'n ei gasglu gennych chi, a defnyddio'r wybodaeth a ddarparwyd fel rhan o'r cais i'r Adran am gyllid o'r Gronfa Ffyniant Bro, yn ogystal ag yn unol â'i pholisïau preifatrwydd. At ddibenion asesu eich cynnig, gall fod angen i'r Adran rannu eich Data Personol gydag adrannau eraill y Llywodraeth ac adrannau yn y Gweinyddiaethau Datganoledig, a thrwy gyflwyno'r ffurflen hon rydych yn cytuno i'r Data Personol gael ei ddefnyddio yn y modd hwn.<br><br>Bydd unrhyw wybodaeth a ddarparwch yn cael ei chadw'n ddiogel a'i dinistrio o fewn 7 mlynedd o gwblhau'r broses ymgeisio.<br><br>Gallwch gael mwy o wybodaeth am y modd y mae'r Adran yn ymdrin â'ch data **yma**. |
| **7.4** Pan fydd awdurdodau'n cyflwyno cynnig am gyllid i Lywodraeth y DU, fel rhan o ymrwymiad y Llywodraeth i fod yn fwy agored yn y sector cyhoeddus o dan Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000 a Rheoliadau Gwybodaeth Amgylcheddol 2004, os yw'r cynnig yn llwyddiannus rhaid iddynt hefyd gyhoeddi fersiwn nad yw'n cynnwys unrhyw wybodaeth sensitif yn fasnachol ar eu gwefan eu hunain cyn pen pum niwrnod gwaith o gyhoeddi'r cynigion llwyddiannus gan Lywodraeth y DU. Mae Llywodraeth y DU yn cadw'r hawl i ystyried bod y cynnig yn methu cydymffurfio os na wneir hyn.<br><br>Dywedwch wrthym ar ba wefan y bydd y cynnig hwn yn cael ei gyhoeddi: |

## ATODIADAU A – C: CRYNODEBAU O BROSIECTAU

Dylid cwblhau'r rhain yn unigol ar gyfer pob cydran o fewn **cynnig pecyn.**

| | |
|---|---|
| Defnyddiwch Atodiadau A – C i ddarparu manylion am bob prosiect cydrannol mewn cynnig pecyn. Gall cynnig pecyn gynnwys hyd at 3 o brosiectau cydrannol. | Ar gyfer pob prosiect cydrannol, llenwch y ffurflen hon e.e., byddai atodiad a yn cynnwys manylion ar gyfer cydran un, atodiad b ar gyfer cydran dau ac atodiad c ar gyfer trydedd gydran y pecyn. |
| A1. Enw'r Prosiect: | Rhowch enw cydran y prosiect. |

| | |
|---|---|
| A2. Darparwch ddisgrifiad byr o’r prosiect hwn (uchafswm o 100 o eiriau) | Darparwch ddisgrifiad byr o’r gydran hon o’r prosiect. |
| A3. Darparwch drosolwg manylach o’r prosiect a’r modd y mae’r prosiect hwn yn gydnaws â’r prosiectau eraill yn y cynnig pecyn, ac yn creu set gydlynus o ymyriadau.<br>(250 o eiriau) | Amlinellwch drosolwg manylach o gydran y prosiect a’r modd y mae’r prosiect hwn yn gydnaws â’r prosiectau eraill yn y cynnig pecyn, ac yn creu set gydlynus o ymyriadau. |
| A4. Darparwch ddisgrifiad byr o’r ardal lle bydd y buddsoddiad yn digwydd. Os yw’n un cymhleth (h.y. yn cynnwys amryfal leoliadau/cyfeiriadau) cynhwyswch fap sy’n diffinio’r ardal gyda chyfeiriadau at unrhyw ardaloedd lle bydd buddsoddiad y Gronfa Ffyniant Bro yn digwydd.<br><br>**Ar gyfer prosiectau trafnidiaeth** cynhwyswch lwybr y cynllun arfaethedig, y seilwaith trafnidiaeth presennol a phwyntiau eraill o ddiddordeb penodol i’r cynnig e.e., safleoedd datblygu, ardaloedd cyflogaeth presennol, cyfyngiadau ac ati.<br>(250 o eiriau) | Disgrifiwch yr ardal lle bydd y gydran hon o’r prosiect yn digwydd. Gellir cynnwys mapiau lle mae’r ardal ar draws amryfal leoliadau.<br><br>Ar gyfer prosiectau trafnidiaeth, dangoswch lwybr y cynllun arfaethedig, y seilwaith trafnidiaeth presennol a phwyntiau eraill o ddiddordeb penodol i’r cynnig e.e., safleoedd datblygu, ardaloedd cyflogaeth presennol, cyfyngiadau ac ati. |
| A5. Cadarnhewch ble mae’r buddsoddiad yn digwydd (ble mae’r cyllid yn cael ei wario, nid lleoliad yr ymgeisydd neu ble mae buddiolwyr y cynnig wedi’u lleoli).<br><br>Os yw’r cynnig mewn un lleoliad, cadarnhewch y cod post a’r cyfeirnod grid ar gyfer lleoliad y buddsoddiad.<br><br>Os yw’r cynnig yn cynnwys amryfal leoliadau, darparwch ffeil GIS. Os nad yw hon ar gael, rhestrwch yr holl godau post/cyfesurynnau sy’n berthnasol i’r buddsoddiad.<br><br>**Ar gyfer yr holl brosiectau**, cadarnhewch ym mha etholaethau ac awdurdodau lleol y mae’r prosiect wedi’i leoli. Cadarnhewch % y buddsoddiad ym mhob lleoliad. | Darparwch gadarnhad o’r union leoliad ble mae’r buddsoddiad yn digwydd e.e. cod post, cyfeirnod grid ac ati.<br><br>Os yw’r cynnig mewn un lleoliad, cadarnhewch y cod post a’r cyfeirnod grid ar gyfer lleoliad y buddsoddiad.<br><br>Os yw’r cynnig yn cynnwys amryfal leoliadau, darparwch ffeil GIS. Os nad yw hon ar gael rhestrwch yr holl godau post/cyfesurynnau sy’n berthnasol i’r buddsoddiad.<br><br>**Ar gyfer yr holl brosiectau**, cadarnhewch ym mha etholaethau ac awdurdodau lleol y mae’r prosiect wedi’i leoli. Cadarnhewch % y buddsoddiad ym mhob lleoliad. |

| | |
|---|---|
| A6. Cadarnhewch gyfanswm y grant y gofynnir amdano o’r Gronfa Ffyniant Bro (£) | Cadarnhewch gyfanswm y grant y gofynnir amdano o’r Gronfa Ffyniant Bro (£) ar gyfer y gydran unigol hon o’r prosiect. |
| A7. Pennwch gyfran y cyllid y gofynnwyd amdano ar gyfer pob un o dair thema fuddsoddi’r Gronfa:<br>a) Adfywio a Chanol Tref %<br>b) Diwylliannol %<br>c) Trafnidiaeth % | Pennwch gyfran y cyllid y gofynnwyd amdano ar gyfer pob un o dair thema fuddsoddi’r Gronfa:<br>a) Adfywio a Chanol Tref %<br>b) Diwylliannol %<br>c) Trafnidiaeth % |
| A8. Cadarnhewch werth yr arian cyfatebol a sicrhawyd ar gyfer y prosiect cydrannol.<br><br>Lle mae cyllid i’w sicrhau o hyd, amlinellwch y manylion isod. Os oes unrhyw fylchau cyllido, amlinellwch eich cynlluniau ar gyfer mynd i’r afael â’r rhain.<br>(250 o eiriau) | Dylai’r rhan hon ddarparu manylion yr holl ffynonellau arian cyfatebol yn eich cynnig.<br><br>Lle mae cyllid i’w sicrhau o hyd, amlinellwch y manylion isod. Os oes unrhyw fylchau cyllido, amlinellwch eich cynlluniau ar gyfer mynd i’r afael â’r rhain. |
| A9. **Gwerth am Arian**<br><br>Amlinellwch ystod lawn effeithiau – buddiol a niweidiol – y prosiect. Lle bo modd, dylid disgrifio effeithiau, eu meintioli ac adrodd arnynt hefyd yn nhermau ariannol. Dylai fod eglurhad clir a manwl o’r modd y cafodd yr holl effeithiau yr adroddwyd amdanynt eu nodi, eu hystyried a’u dadansoddi. Wrth benderfynu beth yw’r effeithiau mwyaf arwyddocaol i’w hystyried, dylai ymgeiswyr ystyried pa effeithiau a deilliannau y bwriedir i’r prosiect eu cyflawni, gan ystyried yr achos strategol, ond dylai hefyd ystyried a oes effeithiau cadarnhaol neu negyddol arwyddocaol posibl eraill, i’r economi, pobl, neu’r amgylchedd.<br>(500 o eiriau) | Dylai’r adran hon amlinellu ystod lawn effeithiau – buddiol a niweidiol – y prosiect. Lle bo modd, dylid disgrifio effeithiau, eu meintioli ac adrodd arnynt hefyd yn nhermau ariannol. Dylai fod eglurhad clir a manwl o’r modd y cafodd yr holl effeithiau yr adroddwyd amdanynt eu nodi, eu hystyried a’u dadansoddi. Wrth benderfynu beth yw’r effeithiau mwyaf arwyddocaol i’w hystyried, dylai ymgeiswyr ystyried pa effeithiau a deilliannau y bwriedir i’r prosiect eu cyflawni, gan ystyried yr achos strategol, ond dylai hefyd ystyried a oes effeithiau cadarnhaol neu negyddol arwyddocaol posibl eraill, i’r economi, pobl, neu’r amgylchedd. |
| A10. Disgwylir yn gyffredinol y bydd Cymhareb Cost a Budd gyffredinol ac Asesiad Gwerth am Arian yn cael eu darparu yng Nghwestiwn 5.5 yn y prif gais. Os nad oes modd darparu Cymhareb Cost a Budd gyffredinol ar | Disgwylir yn gyffredinol y bydd Cymhareb Cost a Budd gyffredinol ac Asesiad Gwerth am Arian yn cael eu hadrodd mewn ceisiadau. Os nad oes modd gwneud hyn, yna dylai’r cais gynnwys esboniad clir pam. |

<table>
<tr><td>gyfer eich cynnig pecyn, eglurwch pam.<br>(250 o eiriau)</td><td></td></tr>
<tr><td>A11. Lle bônt ar gael, darparwch y Gymhareb Cost a Budd (BCR) gychwynnol ac addasedig ar gyfer y prosiect hwn:<br><table><tr><td>BCR Cychwynnol</td><td></td></tr><tr><td>BCR Addasedig</td><td></td></tr></table></td><td>Lle bônt ar gael, darparwch y Gymhareb Cost a Budd (BCR) gychwynnol ac addasedig ar gyfer y prosiect hwn:<br><table><tr><td>BCR Cychwynnol</td><td></td></tr><tr><td>BCR Addasedig</td><td></td></tr></table></td></tr>
<tr><td>A12. A yw eich cynnig yn cyflawni buddion heb werth ariannol? Amlinellwch beth yw’r rhain, a rhowch grynodeb o’r modd y cafodd y rhain eu hasesu.<br><br>(250 o eiriau)</td><td>Amlinellwch y buddion heb werth ariannol, gan ddisgrifio beth yw’r rhain, a rhowch grynodeb o’r modd y cafodd y rhain eu hasesu.</td></tr>
<tr><td>A13. A yw’r prosiect yn cynnwys cynlluniau ar gyfer rhywfaint o wariant grant y Gronfa Ffyniant Bro yn 2022-23?</td><td>Cadarnhewch y cynlluniau ar gyfer gwariant grant y Gronfa Ffyniant Bro yn 2022-23 yn y prosiect cydrannol hwn. Mae’n ofyniad i o leiaf un gydran o fewn y cynnig pecyn i dalu grant yn 2022-23.</td></tr>
<tr><td>A14. A allai’r prosiect hwn gael ei gyflawni fel prosiect annibynnol neu a yw’n ofynnol iddo fod yn rhan o’r cynnig cyffredinol?</td><td>Amlinellwch a fyddai modd cyflawni’r prosiect hwn fel prosiect annibynnol yn hytrach nag fel rhan o gynnig pecyn.</td></tr>
<tr><td>A15. Ymarferoldeb Cyflawni<br>Dangoswch y gellir cyflawni gweithgarwch y prosiect yn 2022-23?</td><td>Cadarnhewch y cynlluniau ar gyfer gweithgarwch y prosiect cydrannol hwn o dan y Gronfa Ffyniant Bro yn 2022-23. Mae’n ofyniad i o leiaf un gydran o fewn y cynnig pecyn i ymgymryd â gweithgarwch y prosiect yn 2022-23.</td></tr>
<tr><td colspan="2">Pwerau a Chydsyniadau Statudol</td></tr>
<tr><td>A16. Rhestrwch ar wahân bob pŵer / cydsyniad ac ati a gafwyd, manylion y dyddiad caffael, cyfnod herio (os yw’n gymwys), a dyddiad dod i ben y pwerau ac amodau sydd wedi’u hatodi iddynt. Dylid cyfeirio at unrhyw ddyddiadau allweddol yn eich cynllun prosiect.</td><td>Mewn perthynas â’r prosiect cydrannol hwn, rhestrwch ar wahân bob pŵer / cydsyniad a gafwyd, manylion y dyddiad caffael, cyfnod herio (os yw’n gymwys), a dyddiad dod i ben y pwerau ac amodau sydd wedi’u hatodi iddynt. Dylid cyfeirio at unrhyw ddyddiadau allweddol yn eich cynllun prosiect.</td></tr>
<tr><td>A17. Rhestrwch ar wahân unrhyw bwerau / cydsyniadau statudol ac ati sydd heb eu cael, gan gynnwys yr amserlen ar gyfer eu cael.</td><td>Rhestrwch ar wahân unrhyw bwerau / cydsyniadau statudol ac ati sydd heb eu cael yn ymwneud â’r prosiect cydrannol hwn, a chynhwyswch yr amserlen ar gyfer eu cael.</td></tr>
</table>

| **Rhestr Wirio Atodiadau**<br><br>**Lle bo modd, sipiwch atodiadau o dan y penawdau a ddarparwyd er mwyn lleihau nifer yr atodiadau sy'n cael eu lanlwytho. Ni fydd ymgeiswyr yn gallu cyflwyno mwy na chyfanswm o 25 o atodiadau. Bydd ffeiliau sip yn cael eu derbyn, fodd bynnag. Ni allwn dderbyn dolenni corfforedig na rhannu ffeiliau, ac ni fydd gwybodaeth a gyflwynir yn y modd hwn yn cael ei hystyried.** | |
|---|---|
| **1: Gweithlyfr** | |
| A ydych chi wedi cwblhau'r **Gweithlyfr Costau a Chynllunio** - Ydyn/Nac Ydyn<br><br>Ar gyfer pecynnau prosiect, cwblhewch **y Gweithlyfr Costau a Chynllunio ar gyfer cynigion pecyn.** | **Os Nac Ydyn, ni fydd eich cynnig yn cael ei asesu gan fod angen dangos gwariant grant y Gronfa Ffyniant Bro yn 2022/23 drwy'r gweithlyfr.** |
| **2: Gogledd Iwerddon: Porth ar gyfer ymgeiswyr nad ydynt yn rhan o'r sector cyhoeddus** | |
| Ar gyfer ymgeiswyr nad ydynt yn rhan o'r sector cyhoeddus yng Ngogledd Iwerddon:<br><br>A ydych chi wedi atodi datganiadau ariannol archwiliedig yn cwmpasu'r tair blynedd ariannol ddiwethaf (neu gyfrifon blynyddol archwiliedig ar gyfer elusennau cofrestredig). Ydyn/Nac Ydyn<br><br>Ar gyfer cynigion ar y cyd gyda phartneriaid nad ydynt yn rhan o'r sector cyhoeddus, bydd angen datganiadau/ cyfrifon ariannol gan bartneriaid ac ymgeiswyr (os yw'n berthnasol). | **Os Nac Ydyn, ni fydd eich cynnig yn cael ei asesu.** |
| Ar gyfer ymgeiswyr nad ydynt yn rhan o'r sector cyhoeddus yng Ngogledd Iwerddon:<br><br>A ydych chi wedi darparu tystiolaeth o brofiad o gyflawni dau brosiect cyfalaf o faint a graddfa debyg yn y pum mlynedd diwethaf.<br><br>Ar gyfer cynigion ar y cyd gyda phartneriaid nad ydynt o'r sector cyhoeddus, bydd angen tystiolaeth gan bartneriaid ac ymgeiswyr (os yw'n berthnasol). | **Os Nac Ydyn, ni fydd eich cynnig yn cael ei asesu.** |

| 3: Tystiolaeth o Gefnogaeth – Cynigion Trafnidiaeth | |
|---|---|
| Ar gyfer ymgeiswyr sy'n defnyddio'u lwfans trafnidiaeth: A ydych chi wedi atodi pro forma 1 gan yr awdurdod perthnasol â chyfrifoldeb statudol am drafnidiaeth. Ydyn/Nac Ydyn | **Os Nac Ydyn, ni fydd eich cynnig yn cael ei asesu.** |
| Ar gyfer cynigion trafnidiaeth mawr (£20M - £50M): A ydych chi wedi atodi pro forma 1 gan yr awdurdod perthnasol â chyfrifoldeb statudol am drafnidiaeth (ac NIE os nad yw'r ymgeisydd yn rhan o'r sector cyhoeddus). Ydyn/Nac Ydyn | **Os Nac Ydyn, ni fydd eich cynnig yn cael ei asesu.** |
| Ar gyfer ymgeiswyr Gogledd Iwerddon sy'n cyflwyno prosiectau trafnidiaeth: A ydych chi wedi atodi pro forma 4 gan y cyngor lleol perthnasol â chyfrifoldeb statudol am drafnidiaeth (a Gweithrediaeth Gogledd Iwerddon [NIE] os yw'n ymgeisydd nad yw'n rhan o'r sector cyhoeddus). Ydyn/Nac Ydyn | **Os Nac Ydyn, ni fydd eich cynnig yn cael ei asesu.** |
| **4. Tystiolaeth o Gefnogaeth - Cynigion ar y Cyd** | |
| Ar gyfer Cynigion ar y Cyd yn Lloegr, yr Alban, a/neu Gymru :<br>A ydych chi wedi atodi pro forma 2 yn dangos tystiolaeth o gefnogaeth sefydliadau awdurdodau lleol cyfranogol. Ydyn/Nac Ydyn | **Os Nac Ydyn, ni fydd eich cynnig yn cael ei asesu.** |
| Ar gyfer Cynigion ar y Cyd yng Ngogledd Iwerddon:<br>A ydych chi wedi atodi pro forma 3 yn dangos tystiolaeth o gefnogaeth sefydliadau cyfranogol. Ydyn/Nac Ydyn | **Os Nac Ydyn, ni fydd eich cynnig yn cael ei asesu.** |
| **5: Tystiolaeth o gymorth blaenoriaeth ffurfiol AS** | |
| Ar gyfer Cynigion ar y Cyd yn Lloegr, yr Alban, a/neu Gymru yn unig: A ydych chi wedi atodi pro forma 6: cymorth blaenoriaeth ffurfiol AS ar gyfer y cynnig hwn? Ydyn/Nac Ydyn | |
| **6: Cymorth Gwladwriaeth/ Cymhorthdal** | |

| | |
|---|---|
| Ar gyfer yr holl ymgeiswyr nad ydynt yn rhan o'r sector cyhoeddus sy'n cyflawni yng Ngogledd Iwerddon, os ystyrir bod y dyfarniad cyllid yn gymhorthdal:<br><br>A ydych chi wedi atodi cyngor cyfreithiol annibynnol sy'n gyson â'ch ymateb yn yr adran hon ac sy'n cadarnhau yr ystyrir bod y dyfarniad cyllid yn cydymffurfio â chyfundrefn rheoli cymorthdaliadau'r DU. Ydyn/Nac Ydyn | **Os Nac Ydyn, ni fydd eich cynnig yn cael ei asesu.** |
| Ar gyfer ymgeiswyr y sector cyhoeddus a phreifat, ar gyfer cyflawni yng Ngogledd Iwerddon yn unig, os yw'r dyfarniad cyllid uniongyrchol gan Lywodraeth y DU yn cael ei ystyried yn gymorth gwladwriaeth o dan bedwar prawf rheolau cymorth gwladwriaeth yr UE ac mae'n cael ei ariannu o dan esemptiad yn seiliedig ar y Rheoliadau Esemptiad Bloc Cyffredinol (651/2014), ac nid yw'n dod o fewn cwmpas Rheoliad 6(5).<br><br>A ydych chi wedi atodi dogfen i ddangos effaith gymhellol yn unol â Rheoliad 6(2). | **Os Nac Ydyn, ni fydd eich cynnig yn cael ei asesu.** |
| Ar gyfer ymgeiswyr nad ydynt yn rhan o'r sector cyhoeddus, ar gyfer cyflawni yng Ngogledd Iwerddon yn unig, os yw'r dyfarniad cyllid uniongyrchol gan Lywodraeth y DU yn cael ei ystyried yn gymorth gwladwriaeth o dan bedwar prawf rheolau cymorth gwladwriaeth yr UE.<br><br>A ydych chi wedi atodi cyngor cyfreithiol annibynnol sy'n gyson â'ch ymateb yn yr adran hon ac sy'n cadarnhau yr ystyrir bod y dyfarniad cyllid yn cydymffurfio â chymorth gwladwriaeth.<br>Ydyn/Nac Ydyn | **Os Nac Ydyn, ni fydd eich cynnig yn cael ei asesu.** |
| Ar gyfer yr holl awdurdodau cyhoeddus yn Lloegr, yr Alban a Chymru yn unig, alldalu'r cyllid fel cymhorthdal posibl i drydydd partïon.<br><br>A ydych chi wedi atodi **pro forma 5**: datganiad o gydymffurfio yn ymwneud â | **Os Nac Ydyn, ni fydd eich cynnig yn cael ei asesu.** |

| | |
|---|---|
| chymhorthdal wedi'i lofnodi gan eich Prif Swyddog Cyllid. | |
| **7: Ffeiliau GIS** | |
| A ydych chi wedi atodi ffeil GIS (argymhellir hyn ar gyfer prosiectau sy'n cwmpasu amryfal leoliadau). | |
| **8: Mapiau a Lluniadau** | |
| A ydych chi wedi atodi map sy'n diffinio'r ardal gyda chyfeiriadau at unrhyw ardaloedd lle bydd buddsoddiad y Gronfa Ffyniant Bro yn digwydd? | |
| A ydych chi wedi atodi unrhyw luniadau/ cynlluniau i gefnogi'ch cynnig? | |
| **9: Ffit Strategol** | |
| A ydych chi wedi atodi tystiolaeth o ymgysylltiad rhanddeiliaid (llythyrau o gefnogaeth, er enghraifft)? Ydyn/Nac Ydyn | |
| A ydych chi wedi darparu Adroddiad Asesu Opsiynau (OAR)? Ydyn/Nac Ydyn | |
| A ydych chi wedi atodi Damcaniaeth Newid? Ydyn/Nac Ydyn | |
| **10: Achos Economaidd dros Fuddsoddi** | |
| A ydych chi wedi atodi nodyn esboniadol yn egluro sut mae'r Gymhareb Cost a Budd wedi'i hamcangyfrif? Ydyn/Nac Ydyn | |
| Ar gyfer cynigion trafnidiaeth: A ydych chi wedi atodi Tabl Arfarnu Cryno? | |
| A ydych chi wedi darparu dogfennau ychwanegol i gefnogi'r Achos Economaidd (adran 5)?<br><br>Ar gyfer cynigion trafnidiaeth, dylai ymgeiswyr ddarparu taenlenni allbynnau arfarnu penodol lle y'u defnyddiwyd, gan gynnwys Pecyn Cymorth Arfarnu Teithio Llesol, Pecyn Cymorth Arfarnu Priffyrdd Lleol, Pecyn Cymorth Arfarnu Cynlluniau | |

| | |
|---|---|
| Bach neu allbynnau'r arfarniad o fuddion i ddefnyddwyr trafnidiaeth (TUBA) | |
| **11: Ymarferoldeb Cyflawni** | |
| A ydych chi wedi atodi copïau o arian cyfatebol wedi'i gadarnhau. Ydyn/Nac ydyn | |
| Gall Llywodraeth y DU dderbyn darpariaeth tir gan drydydd partïon fel rhan o'r cyfraniad lleol tuag at gostau cynllun.<br><br>A ydych chi wedi atodi tystiolaeth ar ffurf llythyr gan brisiwr annibynnol i wirio gwir werth marchnad y tir? Ydyn/Nac ydyn | |
| A ydych chi wedi atodi Cynllun Cyflawni? Ydyn/Nac ydyn | |
| A ydych chi wedi atodi tystiolaeth yn ymwneud â chydsyniadau statudol/ perchnogaeth tir a/neu gaffaeliadau tir? Ydyn/Nac ydyn | |
| A ydych chi wedi atodi Cynllun Sicrwydd a Chymeradwyaeth Integredig? Ydyn/Nac ydyn | |
| A ydych chi wedi atodi copi o'ch Cofrestr Risg? Ydyn/Nac ydyn | |
| Ar gyfer cynigion diwylliannol, a ydych chi wedi atodi dogfen i amlinellu sut byddwch chi'n rheoli eich ased/cyfleuster yn gynaliadwy yn y tymor hir? Ydyn/Nac ydyn | |
| **12: Datganiadau Cynigion SRO a CFO** | |
| A ydych chi wedi atodi pro forma 7: Datganiad SRO. | **Os Nac Ydyn, ni fydd eich cynnig yn cael ei asesu.** |
| A ydych chi wedi atodi pro forma 8: Datganiad CFO. | **Os Nac Ydyn, ni fydd eich cynnig yn cael ei asesu.** |
| **13: Achos Busnes** | |
| A ydych chi wedi atodi achos busnes amlinellol neu achos busnes llawn? Ydyn/Nac ydyn | |